# Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae a chymdeithasu

## Tystiolaeth Chwarae Cymru

## Mynegai

1. Cyflwyniad

2. Agwedd seiliedig ar dystiolaeth

Chwarae

Oedrannau'n Mynd Lan ac Nid i Lawr

Teimlo'n ddiogel

Negeseuon Cymysg

Cydnabyddiaeth Cynyddol i Bwysigrwydd Chwarae

Chwarae Allan yn Hyderus

3. Rhwystrau i chwarae allan a chymdeithasu yn hyderus

Agweddau

'Anwaraidd, wedi eu esgeuluso a lan i ddrygioni'

Amlygrwydd

Teuluoedd llai

Perygl dieithriaid

Diffyg ymddiriedaeth

Defnyddio cerbydau

Blaenoriaeth i geir

Oedolion blin

Canfyddiadau ynghylch yr hyn sy'n 'ddiogel'

Diwylliant Iechyd a Diogelwch

Negeseuon iechyd a diogelwch anghyson

Ardaloedd chwarae mwy diogel a buddiannau breintiedig

Cynhwysiant

Plant anabl

Grwpiau lleiafrifol

Cyfranogaeth a chydweithredu

## 4. Rhwystrau i chwarae allan a chymdeithasu'n hyderus

### Amgylchedd

Y siwrnai

Y maes chwarae 'traddodiadol'

Yr unig le i blant

Ffensys

Llanast a difrod

Amgylcheddau Gwenwynig

Ardaloedd Chwarae Hygyrch

Safonau a safoni

Amlygrwydd a Chysgod

Ynysu gwledig

Yr amgylchedd dylunedig a chynlluniedig

Cyflymdra traffig

Ysgolion

- Gwahanu oedrannau
- Tir yr ysgol fel man chwarae mwy diogel
- Tir yr ysgol – argymhellion plant
- Clybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol

Rhyddid rhithwir i chwarae a chymdeithasu

Gwaith Chwarae a Gwaith Ieuenctid

Mentrau Diogelwch Cymunedol

## 5. Polisi ac ariannu chwarae

**Polisi Chwarae a Chynllun Gweithredu Polisi Llywodraeth Cymru**

**Cymorth**

**Gwasanaethau Ieuenctid a Hamdden sy'n bodoli eisoes**

**Ariannu Ychwanegol ar gyfer Plant Anabl**

**Canolfannau Plant Integredig**

**Ysgolion Bro**

**Rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR**

**Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf**

**Effaith Posibl Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)**

## 6. Atebion ac Argymhellion

**Calonnau a Meddyliau: Amser, gofod a chaniatâd i chwarae**

**Llyfryddiaeth**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Chwarae Cymru'n croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor i fannau mwy diogel i blant a phobl ifainc chwarae a chymdeithasu ynddynt.

1.1 Fel y mudiad cenedlaethol dros chwarae plant rydym yn eiriol dros hawl plant a phobl ifainc i chwarae. Rydym yn hyrwyddo darpariaeth chwarae cynhwysol ble y gall pob plentyn a pherson ifanc chwarae yn y modd y dymunant.

1.2 Rydym hefyd yn hyrwyddo'r cysyniad o fannau cyhoeddus fel mannau y gellir chwarae ynddynt – mae **pob** plentyn a pherson ifanc yn aelodau allweddol o'n cymunedau a gellir, a dylid, ateb eu anghenion chwarae ym mhob man cyhoeddus – o balmentydd i barciau a chanol trefi.

## 2. Agwedd sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

2.1 Mae'r papur hwn wedi ei hysbysu gan y wybodaeth ddiweddaraf am waith ymchwil rhyngwladol cyfredol i natur chwarae a'i fuddiannau a'n profiad rhyngwladol fel rhan o'r Gymdeithas Chwarae Ryngwladol a'r rhwydwaith Child Friendly Cities. Fe'i hysbysir hefyd (o fewn tîm Chwarae Cymru) gan lawer o flynyddoedd o weithio gyda, siarad â ac arsylwi plant a phobl ifainc y tu mewn a'r tu allan i wasanaethau chwarae a gwasanaethau ieuenctid.

2.2 Hysbysir ein tystiolaeth hefyd gan ein gwaith polisi a'n profiad o fewn pedair gwlad y DU, a'n gwaith o ddydd-i-ddydd ar draws Cymru – yn fwyaf penodol wrth gynorthwyo Cymdeithasau Chwarae Cymru trwy Gymru gyfan i gynnal awdit o gyfleoedd chwarae o fewn eu hardal, ac wrth gasglu tystiolaeth gan awdurdodau lleol i gynhyrchu *Cyflwr Chwarae,* adolygiad rheolaidd o sut y cafodd ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru o fewn Cymorth, ar gyfer chwarae mynediad agored wedi ei staffio, ei wario gan awdurdodau lleol a'r modd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer chwarae – mae'r adolygiad diweddaraf i'w gyhoeddi'n fuan.

2.3 Bydd tystiolaeth Chwarae Cymru'n gwneud defnydd penodol o adolygiad llenyddol a gyhoeddwyd gan Play England yn 2008. *Play for a change - Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives* gan Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Caerloyw, yw'r dystiolaeth ddiweddaraf, mwyaf cynhwysfawr ac ystyriol sy'n bodoli

ynghylch chwarae plant a phobl ifainc a'r modd y byddwn yn darparu ar ei gyfer, yn ein barn ni. Mae *Play for a change* yn dechrau cael effaith rhyngwladol y tu hwnt i'r DU. Byddem yn argymell yn gryf y dylai aelodau'r Pwyllgor dderbyn tystiolaeth gan yr awduron fel rhan o'u ymchwiliad ac y dylent ddarllen y cyhoeddiad hwn.

**Chwarae**

2.4 Mae chwarae'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at nifer o agweddau o fywyd bodau dynol – ymysg y rhain y mae ein iechyd a'n lles, creadigrwydd, cysylltiadau cymdeithasol, ein gallu parhaus i ddysgu a'n gwytnwch; mae gwaith ymchwil yn awgrymu, oherwydd y rhesymau hyn, bod chwarae o bwysigrwydd penodol i'n plant. Canfyddodd adroddiad Draig Ffynci *Pam fod oedran pobl yn mynd lan yn lle i lawr?* bod thema gyffredin yn cael ei chyfeirio ati gan y plant sy'n arddangos mai 'chwarae yw'r cais mwyaf sylfaenol y gall plentyn ei wneud, ac ... ei fod yn effeithio arnynt ym mhob agwedd o'u bywyd.'

2.5 Mae ffenestr o gyfle yn ein bywydau cynnar ble fo treulio amser yn chwarae (sy'n ystod anferth o brosesau amrywiol, cymhleth, cydblethedig) yn un o'r pethau mwyaf buddiol y gallwn ei wneud i'n hunain ac mae diwallu'r awydd i chwarae'n ein helpu i ffynnu a goroesi – yn bwysicaf oll mae, ar y cyfan, yn brofiad pleserus. Felly, mae'n gwneud synnwyr i sicrhau darpariaeth dda ar gyfer pobl sy'n chwarae rhwng 0 – 18 mlwydd oed, o ran yr anogaeth a roddir iddynt chwarae, a darparu ar gyfer chwarae ym mhob amgylchedd ble y gallant eu cael eu hunain.

2.6 Ble y byddwn yn darparu'n dda ar gyfer chwarae plant a phobl ifainc gallwn ehangu ar ystod a chyfoeth y chwarae y byddant yn ei brofi a chyfoethogi'r buddiannau a geir o chwarae'n sylweddol.

2.7 Ble y byddwn yn darparu ar gyfer chwarae neu'n ei hyrwyddo yn yr holl amgylcheddau ble y bydd plant a phobl ifainc yn eu cael eu hunain, byddwn yn cyfleu'r neges bod chwarae (a chymdeithasu) yn ddilys ac i'w groesawu.

**Oedrannau'n Mynd Lan ac Nid i Lawr**

2.8 Mae pob person angen chwarae ac mae'r rhan fwyaf ohonom yn chwarae, er ein bod ni bobl hŷn wedi ein cyflyru i'w ystyried, i'w werthfawrogi a'i ddisgrifio'n wahanol. Yn ein diwylliant gogwydd-oedolion, canolbwyntio ar waith caiff "chwarae" ei ystyried yn aml fel elfen sydd ond yn ddefnyddiol i fodau ifanc iawn. Yn aml byddwn yn defnyddio ysfa plant bychain i chwarae, neu'n annog chwarae, mewn modd cyfryngol – er mwyn ymestyn eu haddysg neu er mwyn eu cadw'n brysur (e.e. y casgliad o deganau a llyfrau plant bach a welir yn aml yn ystafell aros y feddygfa). Byddwn, yn gyffredinol, yn disgwyl i blant hŷn (dros 5 mlwydd oed), i ymddwyn yn yr un modd ag oedolion mewn mannau cyhoeddus oni bai fod y gofod wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer chwarae.

2.9 Erbyn i blant gyrraedd oedran ysgol uwchradd ni chaiff eu hysfa i chwarae ac i 'gymdeithasu' gyda'u cyfoedion, ar y cyfan, eu hateb o gwbl bellach yn yr amgylcheddau y byddant yn treulio amser ynddynt – nid ydynt yn cael eu hystyried yn ddilys bellach. Yn aml, caiff ymddygiad chwarae pobl ifainc ei ystyried fel pe bae'n fygythiol i, a gan bobl o oedrannau eraill, ac yn aml caiff ei ddehongli fel ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu batholegol - mae hyn yn arbennig o wir am ddynion ifanc.

2.10 Fel mudiad, rydym yn cydnabod fod gan bawb wahanol anghenion a dymuniadau chwarae all newid dros amser ac nad yw gwahanu pobl yn ôl oedran neu yn grwpiau eraill, o angenrhaid, o fudd (er efallai y bydd rhai pobl angen cymorth penodol i ateb eu hanghenion personol hwy). Mae rhyngweithio rhwng pob grŵp oedran ac aelodau o gymdeithas yn broses allweddol sy'n cynorthwyo pob plentyn a pherson ifanc i deimlo'n fwy hyderus ynghylch chwarae allan a chymdeithasu; mae llunio perthnasau gyda phlant a phobl ifainc eraill yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth ynghylch pobl a daearyddiaeth cymdogaethau ac i rannu chwedlau.

2.11 Ar yr un pryd mae angen inni ddelio'n gyffredinol â gwahanol anghenion poblogaeth amrywiol o blant a phobl ifainc. Mae'r rhwystrau y bydd plant a phobl ifainc yn eu hwynebu'n ddigon tebyg, ond byddant yn amrywio o ran maint ar gyfer pobl sydd â gwahanol anghenion ar wahanol adegau mewn gwahanol fannau.

**Teimlo’n ddiogel**

2.12 Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifainc yn chwarae’n ddigymell y rhan fwyaf o’r amser ac yn unrhyw le ble y byddant yn teimlo’n ddigon hyderus i chwarae, oni bai eu bod o dan straen meddyliol neu gorfforol eithafol (oherwydd ofn, newyn, blinder neu salwch er enghraifft) neu ble fo ffactorau personol a / neu amgylcheddol allanol sy’n eu hatal rhag chwarae.

2.13 Mae plant a phobl ifainc yn mynegi awydd am fannau diogel i chwarae a chymdeithasu ond efallai na fydd eu syniad o fannau diogel yn cydymffurfio â syniadau oedolion. Yn aml bydd oedolion yn gorfodi eu safonau a’u dewisiadau eu hunain, unai trwy reoliadau neu trwy fethu â chyfathrebu’n effeithiol gyda, ac arsylwi ymddygiad, plant a phobl ifainc, ac yna methu deall a gweithredu ar yr hyn y byddant yn ei glywed ac yn ei weld.

2.14 Pan fydd plant yn siarad am deimlo’n ddiogel, dydyn nhw ddim fel arfer yn siarad am y Ddeddf Iechyd a Diogelwch, ac os oes gan yr amgylchedd y maent yn dymuno chwarae ynddo ar y pryd ymdeimlad rheoledig, safonol o ddiogelwch. Dydyn nhw ddim ychwaith yn sôn am fod eisiau neu angen ymyriadau gan oedolion yn eu hymddygiad mentrus eu hunain. Maent yn sôn am ymdeimlad o ddiogelwch cymdeithasol ble y byddan nhw eu hunain â rheolaeth, yn teimlo’n gartrefol ac yn rhydd rhag bygythiadau o drais neu ymosodiadau.

**Negeseuon Cymysg**

2.15 Dywed arolygon a gynhaliwyd ymysg plant a phobl ifainc sydd wedi cael profiad o allu chwarae’r tu allan yn gyson, mai dyma’r man gorau i chwarae. Mae ymchwil Diwrnod Chwarae ac adroddiad Draig Ffynci *Pam fod oedran pobl yn mynd lan yn lle i lawr?* yn gwneud hyn yn gwbl eglur.

2.16 Fodd bynnag, gall y rheini ohonom sydd mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau fydd yn effeithio’n sylweddol ar fynediad neu hyder plant i chwarae allan (er enghraifft newyddiadurwyr, cynllunwyr, gwleidyddion lleol a chenedlaethol) esgeuluso, fychanu neu fod yn gwbl anymwybodol o’r angen hwn i chwarae, a chanlyniadau anfwriadol ein gweithredoedd bob dydd sy’n atal plant a phobl ifainc rhag chwarae a loetran tu allan.

2.17 Yng nghymdeithas Prydain yn gyffredinol dydyn ni ddim wedi arfer gwerthfawrogi anghenion chwarae plant na myfyrio ar ein heffaith ac ar hyn o bryd, ’does dim rheidrwydd arnom i wneud hynny. Yn aml byddwn yn cyfleu’r neges, boed yn fwriadol ai peidio, unai trwy ein geiriau, ein hagwedd, ein gweithredoedd neu’r modd y byddwn yn trefnu ein hamgylcheddau a’n hamser, bod chwarae ond yn dderbyniol mewn mannau a benodir gan oedolion, ar adegau a bennir gan oedolion mewn ffyrdd y bydd oedolion yn eu cael yn gynhyrchiol ac yn dderbyniol, ac ar oedrannau penodol – wedi eu rhannu’n grwpiau.

2.18 Yn aml iawn bydd oedolion sydd mewn safleoedd o awdurdod ddim yn gwerthfawrogi neu’n gweithio i warchod y mannau y bydd plant yn eu datblygu’n annibynnol ar gyfer eu chwarae eu hunain (er enghraifft cuddfannau, siglenni rhaff a llwybrau beics a sglefrfyrddau). Mae’r angen trefol ac angen oedolion am amgylchedd adeiledig taclus, trefnus a rhwydd i’w gynnal a’i gadw yn wahanol i angen plant am ‘rannau rhydd’ a mannau i’w trin a’u newid. Pan fydd oedolion yn chwalu neu’n tacluso’r mannau hyn byddant yn cyfleu neges i blant a phobl ifainc fod yr hyn y maent yn ei wneud drostynt eu hunain i gyflawni eu anghenion chwarae’n annerbyniol a diwerth.

2.19 Mae plant a phobl ifainc yn hynod o ymwybodol o negeseuon agored a chudd nad yw chwarae’n gysyniad dilys neu nad yw’n ‘ddiogel’ iddynt chwarae’r tu allan. Mae’r negeseuon hyn hefyd yn dylanwadu ar eu rhieni, eu gofalwyr a chymdeithas yn fwy cyffredinol, i’r fath raddau ble fo syniad cyffredinol yn bodoli bod plant a phobl ifainc sy’n chwarae allan yn annibynnol o oedolion mewn perygl ac nad oes croeso iddynt mewn mannau cyhoeddus. (Sefydliad Materion Cymreig, 2009, *What are We Doing to Our Kids?*)

## Cydnabyddiaeth Cynyddol

2.20 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fe wnaethom ddechrau gweld newid yn nirnadaeth rhai pobl – ceir twf cynyddol yn niddordeb oedolion, a chydnabyddiaeth o, ddiffyg rhyddid plant a phobl ifainc i chwarae a chymdeithasu (Sefydliad Materion Cymreig, 2009, *What are We Doing to Our Kids?*). ’Does dim rhyfedd bod oedolion ac atgofion melys o’r cyfleoedd chwarae a’r rhyddid y gwnaethant eu mwynhau fel plant a’u bod yn achwyn ynghylch y sefyllfa sydd ohoni heddiw – gan feio nifer o ffactorau (gan gynnwys, ar gam, yr

hyn y maent yn ei ystyried fel ‘natur plant a phobl ifainc heddiw’) a theimlo’n ddiymadferth i wneud unrhyw newidiadau.

2.21 Fel mudiad fe wyddom o’n gwaith yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol, fod tystiolaeth bendant yn bodoli y gall newid mewn agwedd wneud gwahaniaeth mawr – yn aml heb fynd i unrhyw gostau ychwanegol i’r hyn gaiff ei wario eisoes ar bethau megis darpariaeth chwarae, priffyrdd a mannau cyhoeddus. **Mae** atebion ymarferol ar gael allai, o’u gweithredu’n rymus, arafu neu atal y tueddiad tuag at weld plant a phobl ifainc (a theuluoedd) yn teimlo bod raid iddynt dreulio mwy a mwy o’u hamser ‘rhydd’ y tu mewn.

2.22 Credwn mai gweithio i newid meddylfryd a systemau sydd wedi hen ennill eu plwyf, sy’n gweithredu’n erbyn gweld plant a phobl ifainc yn gwneud y gorau o gyfleoedd i chwarae ac i gymdeithasu mewn ffyrdd arferol bob dydd, yw’r allwedd i newid cyfleoedd plant a phobl ifainc i fwynhau a theimlo’n hyderus wrth chwarae a chymdeithasu.

**Chwarae Allan yn Hyderus**

2.23 Yn nhaflenni briffio Chwarae Cymru byddwn yn siarad am blant yn ‘chwarae allan yn hyderus’. Mae llawer o blant a phobl ifainc yn chwarae allan ac yn loetran yn ddigon hapus a diogel yng Nghymru bob dydd. Ond mae tueddiadau cynyddol a ffactorau eraill yn creu rhwystrau sy’n atal rhai plant a phobl ifainc rhag chwarae allan a loetran yn hyderus – mae’r rhain yn niferus a chymhleth. Yr her i ni yw sicrhau bod pobman y bydd plant a phobl ifainc yn treulio eu hamser ynddynt, yn fannau y gallant deimlo’n hyderus i fod yn hwy eu hunain ac i chwarae gyda neu os y dymunant heb eu ffrindiau.

2.24 Mae tueddiad i osod y bai ar blant a phobl ifainc oherwydd eu amharodrwydd i chwarae allan – mae’n rhan o ddiwylliant ‘demoneiddio’ sy’n bodoli yn y DU, a ddynodwyd yn sylwadau clo yr adroddiad ar Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Ond eto, nid oes modd gwahanu ymddygiad pobl a’r amgylchedd ffisegol, y diwylliant a’r gymdeithas y maent yn byw ynddynt.

2.25 Mae’r model cymdeithasol a ddefnyddir gan y lobi anabledd, ble y disgrifir bod pobl yn cael eu hanablu gan agweddau ac amgylcheddau’n hytrach na’u natur eu hunain, yn un priodol

i'w ddefnyddio wrth ddynodi rhwystrau sy'n atal pob plentyn a pherson ifanc rhag chwarae allan a loetran. caiff nifer o'r rhwystrau hyn eu harchwilio yn y dystiolaeth yma, ond mewn gwirionedd nid yw'r categorïau hyn yn rhai cwbl wahanol. Fodd bynnag, yn y ddogfen hon, ble bynnag y byddwn yn cyfeirio at blant a phobl ifainc anabl rydym yn golygu'r rheini ohonom y gall ffactorau personol olygu ein bod angen cymorth ychwanegol i chwarae allan a loetran yn hyderus.

2.26 Ar ddiwedd ein tystiolaeth rydym yn amlinellu dulliau ymarferol a pholisi posibl allai ein helpu i oresgyn y rhwystrau hyn a chreu Cymru well i blant a phobl ifainc fyw ynddi.

## 3. Rhwystrau – Agweddau

### 'Anwaraidd', 'wedi eu esgeuluso' neu 'lan i ddrygioni'

3.1 Mae canfyddiad negyddol yn bodoli ers amser bod pobl ifainc sydd allan yn cymdeithasu (cwynodd Plato am ddynion ifainc segur yn sefyllian ar gornel y stryd). I ryw raddau, mae hyn bellach wedi ymestyn i gwmpasu plant iau, gaiff ei danlinellu gan adroddiadau yn y cyfryngau am 'blant gwyllt'. Bydd "plant da" yn mynd i wersi ffidil, ymarferion pêl-droed, gweithgareddau'r Urdd neu'r Sgowtiaid, tra fo "plant drwg" yn cymdeithasu ar y strydoedd. Mae'r canfyddiad hwn yn ychwanegu at ansicrwydd plant ynghylch plant a phobl ifainc eraill sy'n chwarae allan neu'n cymdeithasu.

3.2 Yn draddodiadol mae teuluoedd addysgedig, mwy cyfoethog, am amrywiol resymau, wedi gwahaniaethu rhyngddynt eu hunain â phobl llai ariannog trwy wahardd eu plant rhag chwarae allan ar y stryd fel y bydd plant 'llai breintiedig' (*Hop Skip and Jump*, BBC, 2009). Heddiw, mae plant a phobl ifainc yn dal yn fwy tebygol o gael cyfle i chwarae allan os ydynt o gefndir difreintiedig ble fo llai o bwyslais ar y tueddiad yma i 'gadw wyneb' a ble fo llai o arian ar gael i dalu am weithgareddau tu allan i'r ysgol sydd wedi eu cymeradwyo neu sy'n cael eu harwain gan oedolion. Ond nid yw hynny'n golygu nad yw diffyg gofal plant rhad ac am ddim, hygyrch, neu fforddiadwy yn ystod y gwyliau neu ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn cael yr un effaith andwyol ar deuluoedd sy'n byw mewn tlodi a theuluoedd plant anabl. (*It doesn't happen here - The reality of child poverty in the UK*, a *Postcards from home,* Barnardo's).

3.3 Mae'r farn bod chwarae allan a chymdeithasu yn annymunol a ddim i'w gymell yn atal rhai rhieni rhag paratoi ar gyfer a chaniatáu i'w plant chwarae allan, yn enwedig y rhieni hynny sydd â phlant anabl neu sydd ar gyrion cymdeithas, sy'n tueddu i fynd ati'n weithredol i osgoi ychwanegu at ganfyddiadau negyddol ynghylch eu plant. Mae cynlluniau chwarae i gefnogi rhieni sydd â phlant ifainc yn tueddu i ganolbwyntio ar 'ddysgu trwy chwarae' a dydyn nhw ddim yn tueddu i fynd i'r afael â chynyddu ymwybyddiaeth a gallu ymysg teuluoedd er mwyn i blant allu chwarae allan yn hyderus a diogel.

3.4 Mae rhieni na brofodd bleserau chwarae allan yn annibynnol fel plant, yn llai tebygol o'i groesawu neu o'i weld fel dewis naturiol ar gyfer eu plant.

3.5 Hyd yn oed os yw teulu am annog a pharatoi eu plant a'u pobl ifainc i chwarae allan a chymdeithasu yn annibynnol, bydd cyd-ddylanwad pobl eraill yn y stryd neu'r gymdogaeth, neu o'u grŵp cymdeithasol, yn llesteirio eu hymdrechion.

3.6 Y farn yma, nad yw chwarae allan yn ddymunol (yn enwedig o'i gyfuno â'r cysyniad bod chwarae allan yn beryglus), yw un o'r rhwystrau pennaf sy'n atal plant a phobl ifainc rhag gallu chwarae allan a chymdeithasu yn hyderus a gall ddylanwadu'n llechwraidd ar lunio penderfyniadau ar bob lefel o lunio polisïau a chynllunio ardaloedd preswyl i fentrau plismona a diogelwch cymunedol lleol.

**Amlygrwydd**

3.7 Os nad oes llawer, neu fawr ddim, o bobl yn amlwg i'w gweld yn chwarae neu'n cymdeithasu mewn mannau cyhoeddus caiff cylch ei greu – po leiaf o bobl **sy'n** chwarae allan ac yn cymdeithasu, y lleiaf **fydd** yna ...

3.8 Mae'r rhesymau sydd y tu ôl i hyn yn cynnwys:

3.9 Un o'r prif resymau dros fynd allan i chwarae yw i ddod o hyd i bobl eraill i chwarae neu i gymdeithasu gyda nhw – yr elfen gymdeithasol yw un o'r rhesymau pennaf dros fynd allan i chwarae a chymdeithasu.

3.10 Bydd gweld neb ar y strydoedd yn chwarae neu'n cymdeithasu yn lleihau hyder bod modd i bobl wneud hynny'n ddiogel. Mwyaf y nifer, mwyaf diogel – po fwyaf o bobl sy'n chwarae allan ac yn cymdeithasu mewn mannau

cyhoeddus y mwyaf diogel a'r mwyaf hyderus y byddant yn teimlo – ble fo dim ond ychydig, neu ddim pobl allan yn chwarae, mae'n naturiol bod llai o hyder ynghylch diogelwch yr ardal.

3.11 Mae diffyg plant yn chwarae allan ac yn cymdeithasu yn anfon neges i gymuned gyfan nad yw'n 'normal' neu'n ddilys i blant a phobl ifainc i wneud hynny. Bydd rhai plant anabl yn enwedig yn colli allan oherwydd nad yw'n cael ei ystyried yn 'normal' neu'n ddilys iddynt fod yn chwarae mewn mannau cyhoeddus (ar wahân i ardaloedd chwarae penodedig dan oruchwyliaeth oedolyn).

## Teuluoedd llai

3.12 O ran bod yn hyderus i chwarae allan a chymdeithasu mae rhai plant yn elwa o fod yn rhan o deulu mawr; caiff doethineb a doniau eu pasio i lawr gan y plant hŷn a budd y teulu cyfan yn elwa o'r tawelwch meddwl a geir bod cwmni cyfarwydd, parod i chwarae allan â nhw ar gael.

3.13 Mae nifer y teuluoedd mawrion yn llai nag yn y gorffennol; mae cost uchel magu plant a phrynu cartref yn atal rhai pobl rhag dechrau neu gynyddu maint eu teulu (*Y Guardian*, 17 Mai 2002) felly mae teuluoedd yn mynd yn llai. Gellid ystyried bod y tueddiad hwn yn milwriaethu'n erbyn plant a'u rhieni'n teimlo'n hyderus ynghylch chwarae allan – i deuluoedd sydd â dim ond un plentyn, yr unig ffordd y gellir sicrhau tawelwch meddwl cwmni cyfarwydd, parod a diogelwch mewn niferoedd yw os ydynt yn adnabod teuluoedd eraill â phlant o oedran tebyg sy'n byw gerllaw.

## Perygl dieithriaid

3.14 Un o'r rhwystrau pennaf i deimlo'n hyderus yn chwarae allan a chymdeithasu yw'r canfyddiad o'r perygl o gael eich niweidio neu eich cipio gan berson dieithr. Er bod llofruddiaeth plentyn gan rywun nad ydynt yn ei adnabod 'ymysg y troseddau prinaf' (*No Fear – Growing up in a risk averse society*, Tim Gill, 2007) mae plant a phobl ifainc yn rhannu ymdeimlad bod perygl gerllaw a chaiff hyn ei atgyfnerthu'n rheolaidd gan, ymysg ffactorau eraill, y mesurau diogelwch y byddwn yn eu gosod, adroddiadau yn y cyfryngau a'r modd y byddwn yn addysgu plant, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, ynghylch eu diogelwch. O ran y

camau y byddwn yn eu cymryd, bach iawn yw'r gwahaniaeth rhwng diogelu ein plant a'n pobl ifainc a chyfleu'r argraff iddyn nhw, a gweddill cymdeithas, nad ydyn nhw'n ddiogel – yn aml bydd y diffyg ddiffiniad yma'n tueddu i leihau hyder.

3.15 Mae canfyddiad y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch y perygl o niwed o ddydd-i-ddydd i blant gan bobl ddieithr yn anghymesur â'r gwirionedd. Mae sylw di-baid pedair awr ar hugain yn y cyfryngau ynghyd ag adroddiadau anghytbwys yn tanseilio hyder. Er enghraifft, cafodd yr ymgyrch ddiweddar am Madeleine McCann effaith niweidiol sylweddol ar ymdeimlad plant o'u diogelwch eu hunain, yn yr un modd ag adroddiadau syfrdanol ynghylch troseddau â chyllyll.

3.16 Nid yw newyddion ynghylch achosion prin ble y caiff plant eu cipio neu eu niweidio yn tueddu i gael eu cydbwyso â newyddion ynghylch yr holl blant fu allan yn chwarae'n ddiogel ac a ddaeth adre'n un darn. Ac ni wneir defnydd o gyd-destunau hanesyddol, er enghraifft, ers dechrau cofnodion hanesyddol cyfeiriwyd at ddynion ifanc yn cael eu lladd â chyllyll, ond yn ôl y cyfryngau mae troseddau diweddar â chyllyll yn arwydd o ffenomenon newydd sy'n peri pryder.

3.17 Yn ogystal, gall mentrau sy'n llawn bwriadau da sydd wedi eu hanelu at helpu plant i gadw'u hunain yn ddiogel gael yr effaith o danseilio eu hyder. Gellid dadlau bod menter ddiweddar yr heddlu ar ran y Llywodraeth sy'n dysgu plant oedran ysgol gynradd i 'redeg, gweiddi a dweud' os y daw person dieithr atynt, wedi cyfrannu at yr ymdeimlad nad ddylid ymddiried mewn unrhyw oedolyn. mae hyn yn cyfrannu hefyd at weld oedolion, sy'n gynghreiriaid neu'n amddiffynwyr posibl, yn petruso cyn ymyrryd neu llunio perthnasau gyda phlant a phobl ifainc. Bydd y mwyafrif o blant gaiff eu niweidio yn cael eu niweidio gan bobl y maent yn gyfarwydd â nhw, ond bydd pawb ohonom yn parhau'r myth na ddylai plant ymddiried mewn oedolion nad ydyn nhw'n eu hadnabod, yn hytrach na magu hyder a gallu ynddynt i ddynodi, osgoi a rhybuddio pobl eraill ynghylch ymddygiad unrhyw berson (boed hen neu ifanc) allai beri niwed iddynt.

**Diffyg ymddiriedaeth**

3.18 Bydd chwarae gyda phlant a phobl ifainc eraill yn helpu unigolion i ddatblygu rhwydweithiau a chyfeillgarwch cryf

gyda'u cyfoedion – sy'n cyfrannu at eu gwytnwch iechyd, meddyliol a chymdeithasol. Mae cyfeillgarwch gaiff ei ffurfio trwy chwarae â phobl eraill yn fuddiol yn gymdeithasol ac yn gatalydd gwerthfawr i berthnasau cymdeithasol oedolion o fewn cymunedau.

3.19 Un o'r elfennau allweddol wrth bennu lefel hyder teulu yn eu plant yn chwarae allan yw eu gwybodaeth a'u ymddiriedaeth mewn pobl leol. 'Mae cysylltiadau anffurfiol yn bwysig wrth greu ymdeimlad o ddiogelwch' (Ross, fel y dyfynnwyd yn *Play for a change*).

3.20 Ble fo teuluoedd yn gallu dibynnu ar gymdogion a phobl leol eraill i 'gadw llygad', o ran diogelwch yn ogystal â disgyblaeth, byddant yn fwy hyderus. Mae hen ddihareb Asiaidd yn dweud ei bod yn cymryd pentref i fagu plentyn, ac mae buddiannau lu i blant a phobl ifainc sy'n adnabod pobl leol gefnogol all eu helpu i gasglu adnoddau ar gyfer, a dilysu eu chwarae. Gellir casglu felly, ble fo'r trosiant o drigolion yn uchel, ble bo teuluoedd wedi eu hynysu oherwydd daearyddiaeth, afiechyd neu anabledd, ble fo teuluoedd yn symud yn aml, a ble fo teuluoedd yn ofni mynd allan, bod llai o debygolrwydd y byddant yn cwrdd â phobl leol eraill sy'n rhannu eu gwerthoedd ac y byddant yn teimlo y gallant ymddiried ynddynt.

3.21 Yn draddodiadol mae ysgolion lleol, capeli, swyddfeydd post, tafarnau, clybiau gweithwyr, neuaddau bingo a siopau cornel yn fannau ble y gall pobl ymgyfarwyddo a'i gilydd, bydd cau neu ddiflannu'r mannau cwrdd hyn o gymunedau'n effeithio ar lefelau ymddiriedaeth a thrwy hynny, ar deimladau teuluoedd o ddiogelwch.

**Defnyddio cerbydau**

3.22 'Mae'r ffaith bod rhieni'n cludo plant i weithgareddau gaiff eu goruchwylio'n cyfyngu ar y broses o gaffael strategaethau asesu risg digonol ac yn creu ofn o blant eraill mewn mannau cyhoeddus.' *Play for a change*

3.23 Caiff drwgdybiaeth o bobl eraill a diffyg hyder cynyddol mewn chwarae allan ei waethygu gan ein defnydd o geir. Dengys gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn Birmingham (Alton et al, 2007 fel a ddyfynnwyd yn *Play for a Change*) bod 'y rheini oedd yn cerdded mwy, yn hytrach na theithio mewn ceir, yn llai tebygol o fod yn bryderus ynghylch pobl ddieithr

ac yn llai tebygol o sôn am ddiffyg mannau addas i chwarae.' Gellid cymryd bod cludo plant i ac o'r ysgol, a gweithgareddau a drefnir, mewn bysiau a thacsis yn cael effaith tebyg a bod rhai plant a phobl ifainc gwledig, anabl neu'r rheini sydd ar gyrion cymdeithas yn benodol yn dioddef oherwydd y ffenomenon yma.

**Blaenoriaeth i geir**

3.24 Mae ein dibyniaeth ar geir a blaenoriaethu anghenion gyrwyr a pherchnogion ceir mewn cymunedau'n cael effaith sylweddol ar ddiogelwch, a theimladau pobl sy'n defnyddio strydoedd ynghylch eu diogelwch personol. Bydd teimladau o ansicrwydd yn gwneud pobl hyd yn oed yn fwy dibynnol ar eu ceir – er enghraifft, bydd rhieni'n gyrru eu plant i'r ysgol oherwydd ei fod yn gyfleus ond hefyd oherwydd eu bod yn teimlo bod lefel a chyflymder y traffig yn berygl i'w plant, yna maent yn ychwanegu at y broblem a chaiff cylchred arall ei chreu.

3.25 Mewn llawer o gymunedau Cymreig traddodiadol mae strydoedd wedi eu llanw â cheir wedi eu parcio – yn aml iawn bydd raid parcio ceir ar y palmant er mwyn caniatáu mynediad un lôn ar hyd y stryd. 'Does dim rheoliadau ar fod yn berchen car sy'n cydberthyn â faint o le fydd ei angen ar ochr y ffordd i gadw'r car, ac mae lefel perchenogaeth ceir yn cynyddu.

3.26 Caiff strydoedd sy'n llawn o geir wedi eu parcio effaith sylweddol ar deimladau ynghylch diogelwch a dilysrwydd chwarae allan am y rhesymau canlynol:

3.27 'Does dim digon o le i chwarae'n rhydd ar y palmant nac ar y ffordd – a chaiff gemau eu tarfu gan geir sy'n mynd heibio

3.28 Mae ceir wedi parcio (i unrhyw un dan 5 troedfedd o daldra) yn cuddio traffig sy'n symud a phobl eraill sy'n defnyddio'r stryd, ac o'r herwydd yn achosi risg

3.29 Mae llawer o blant a phobl ifainc yn ofni mynd i helynt am ddifrodi cerbydau

3.30 Mae angen oedolion am le ar gyfer eu ceir, ac i warchod y cerbydau hynny, yn cael blaenoriaeth rheolaidd a digwestiwn dros angen plant a phobl ifainc i chwarae allan ac i gymdeithasu.

3.31 Bydd cau stryd am ddiwrnod yn unig ar gyfer chwarae (e.e. part stryd, neu ddigwyddiadau Diwrnod Chwarae), tra'n rhoi

cyhoeddusrwydd i anghenion chwarae plant ac yn llwyddo i greu cysylltiad cryf o fewn cymuned am gyfnod, yn tanlinellu'r neges bod raid cymryd camau arbennig er mwyn i blant allu gael hawl i ddefnyddio'r stryd i chwarae. Gallai agwedd blwyddyn gron tuag at gyfryngu rhwng angen plant a phobl ifainc i chwarae allan a chymdeithasu ger eu cartrefi ag anghenion perchnogion ceir gael effeithiau tymor hir cadarnhaol ar deimladau o ddilysrwydd a diogelwch.

**Oedolion blin**

3.32 Un o'r elfennau all nadu plant rhag chwarae'n rhydd â hyder yn eu cymdogaeth eu hunain yw presenoldeb oedolion anoddefgar a gelyniaethus, sydd ddim yn ystyried bod chwarae'r plant yn ddefnydd dilys o fannau cyhoeddus ac sy'n ystyried bod plant a phobl ifainc yn niwsans. Dangosodd gwaith ymchwil a gomisiynwyd ar gyfer Diwrnod Chwarae 2003, er bod dwy ran o dair o'r plant a holwyd (7 – 16 mlwydd oed) yn hoffi chwarae allan bob dydd gyda'u ffrindiau, roedd 80% wedi cael pryd o dafod am chwarae allan, roedd rhywun wedi gweiddi ar 50% ohonynt ac roedd 25% wedi cael eu bygwth yn gorfforol.

3.33 Gall diwylliant 'Dim Gemau Pêl' dreiddio trwy gymdogaeth yn gyflym, yn enwedig ble fo asiantaethau tai cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i anghenion tenantiaid sy'n oedolion ac sy'n anwybyddu neu'n methu cyfryngu ag anghenion rhai iau. Erys arwyddion Dim Gemau Pêl (a'u tebyg) ar waliau pen teras a waliau meysydd parcio weithiau am ddegawdau – gan adael neges bendant nad oes croeso i chwarae allan neu i gymdeithasu yma.

**Canfyddiadau ynghylch yr hyn sy'n 'ddiogel'**

3.34 Ceir tystiolaeth biolegol bod pob plentyn a pherson ifanc angen, ac eisiau, mentro'n gorfforol ac yn emosiynol yn eu ffordd eu hunain wrth iddynt dyfu i fyny, waeth beth fo'u diwylliant neu eu cefndir, neu waeth beth fo'u namau neu eu hymddygiad; mae creu a wynebu risg fel rhan o'u chwarae'n cyfrannu at wytnwch plant, eu gallu i 'ymdopi ag ergydion bywyd' a'u gallu i oroesi a ffynnu. Felly nid yn unig y mae sicrhau 'diogelwch' llwyr ar gyfer plant a phobl ifainc yn amhosibl (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – gweler y dyfyniad isod) mae'n annymunol hefyd.

3.35 Ceir tystiolaeth y gall gor-sensitifrwydd rhai oedolion i risg gael dylanwad niweidiol sylweddol ar syniadau plant ynghylch eu gallu eu hunain ac ar eu sensitifrwydd eu hunain tuag at risg. Er enghraifft, ble fo rhieni'n ystyried bod coedwigoedd a fforestydd yn fannau peryglus, mae plant yn debygol o dyfu i fyny'n ofni coedwigoedd. Gall y gor-sensitifrwydd yma gael ei basio i lawr trwy'r cenedlaethau a gellid cymryd yn ganiataol ei fod yn fwy amlwg ymysg teuluoedd plant anabl neu blant sydd ar gyrion cymdeithas, ble fo angen cydnabyddedig neu real i fod yn neilltuol o wyliadwrus ac amddiffynnol (yn ddibynnol ar y sefyllfa).

3.36 Bydd pobl yn teimlo'n fwy diogel ble fo ganddynt reolaeth – disgrifiwyd ymddygiad mentrus plant a phobl ifanc fel rhan o'u chwarae fel 'bod â rheolaeth dros fod yn ddi-reolaeth' (*Play for a Change*) – felly gellid cymryd y bydd plant yn teimlo'n fwy diogel ble fo ganddynt rywfaint o reolaeth dros eu amgylchedd eu hunain a'r bobl fydd yn ei rannu â nhw.

3.37 Ceir tystiolaeth bod pobl yn llai gwyliadwrus pryd y byddant yn teimlo eu bod yn ddiogel, er enghraifft bydd cynnwys nodweddion diogelwch mewn meysydd chwarae'n arwain at ymddygiad cydadferol ymysg goruchwylwyr a phlant (Morrongiello et al, yn *Accident Analysis and Prevention*, 2007).

## Diwylliant Iechyd a Diogelwch

3.38 'Efallai bod ymateb cymdeithas gyfoes i unrhyw fath o ymddygiadau chwarae plant, a pherthynas plant â'u amgylcheddau uniongyrchol yn awgrymu bod agwedd gyffredinol or-reolaethol ac ofnus tuag at fathau chwarae sy'n cynnwys elfennau sy'n ymddangos fel pe baent yn cynnwys risg. Mae'r ymchwil diweddaraf yn awgrymu bod hyn yn debygol o atgyfnerthu ymddygiadau ofnus ymysg rhai plant, gan gynyddu eu pryder a lleihau eu gallu i ymdopi â bygythiadau a phethau newydd.' *Play for a Change*

3.39 Cynlluniwyd Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn wreiddiol, a'i phrif fwriad oedd, i amddiffyn gweithwyr mewn ffatrïoedd a swyddfeydd, ac ers hynny gwnaethpwyd defnydd cynyddol ohoni i reoli profiadau chwarae plant a phobl ifainc mewn mannau chwarae, ar dir yr ysgol, mewn coedwigoedd, parciau, canol trefi a llawer mwy. Cafodd effaith niweidiol a sylweddol anfwriadol ar ddarpariaeth chwarae plant.

**Negeseuon iechyd a diogelwch anghyson**

3.40 Gwnaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch y datganiad isod ym mis Ionawr 2005:

> ‘Mae iechyd a diogelwch synhwyrol yn ymwneud â rheoli risg, nid ei ddileu’n gyfangwbl. Nid yw’r HSE yn y busnes o ddileu pleserau syml ble bynnag y byddant yn ymddangos ac ar ba bynnag gost. Rydym yn cydnabod buddiannau chwarae i ddatblygiad plant, sydd o’i hanfod yn cynnwys rhywfaint o risg, ac ni ddylid aberthu hyn wrth geisio’r nod amhosibl o ddiogelwch absoliwt.’

3.41 Ond, ni chaiff y datganiad yma ei gyflawni bob amser gan eu gweithredoedd na gweithredoedd pobl eraill sydd â chyfrifoldeb iechyd a diogelwch dros fannau y bydd plant yn chwarae ynddynt. Cyflogwyd ein cyfaill David Ball, Athro Rheoli Risg ym Mhrifysgol Middlesex, fel tyst arbenigol yn achos llys pennaeth ysgol annibynnol yng Ngogledd Cymru yn dilyn marwolaeth bachgen bach o ganlyniad i gymhlethdodau a achoswyd gan ddamwain ar dir yr ysgol.

3.42 Fel rhan o’u tystiolaeth cyflwynodd yr HSE enghraifft weledol o sut yr oeddent yn disgwyl i faes chwarae ‘diogel’ edrych:



3.43 Mae'n briodol i gymharu hyn â'r amgylchedd ble y byddai'r plant yn chwarae cyn i'r HSE ddwyn yr achos llys:



3.44 Mae'n amlwg mai dewis staff yr HSE oedd ynghlwm â'r achos hwn, oedd maes chwarae ble y gallai 'pleserau syml' fod yn anodd i ddod o hyd iddynt – cafodd pob gwerth chwarae ei wthio i'r neilltu er budd yr hyn y maent yn ei ystyried yn ddiogelwch. Mae'r HSE eu hunain yn cyfaddef nad ydynt yn arbenigwyr ar chwarae plant, ond mae'r anghysondeb a welir rhwng geiriau a gweithredoedd yr HSE yn cyfrannu at greu pryder sy'n gwneud i'r rheini fydd yn comisiynu meysydd chwarae i betruso a gor-bwyllo (gaiff ei wneud yn waeth oherwydd ofn cael eu dwyn i gyfraith). Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod ofn yn bodoli ymysg penaethiaid ysgolion yng Nghymru y byddant yn atebol os na fyddant yn cydymffurio'n llwyr â safonau diogelwch ardaloedd chwarae, maent yn credu (ac fe'u cynghorir) ei bod yn orfodol iddynt wneud hynny, ac felly caiff arian ei wastraffu ar arwynebau costus ac offer wedi ei wneuthuro i safonau penodol sy'n well gan arolygwyr a swyddogion iechyd a diogelwch, ond sydd ddim yn ateb anghenion chwarae plant yn ddigonol.

3.45 Fyddai neb ohonom yn croesawu nac yn goddef gweithredoedd bwriadol neu esgeulus sy'n wir fygythiad i les plant, pobl ifainc, neu'r bobl sy'n gofalu amdanynt ac yn darparu ar eu cyfer. Ond, defnyddir 'iechyd a diogelwch' yn rheolaidd fel esgus ac fel bygythiad sy'n lleihau cyfleoedd plant a phobl ifainc i chwarae allan ac i gymdeithasu ac felly

mae'n cael effaith negyddol ar eu hiechyd yn ogystal â'u hymdeimlad o reolaeth dros eu diogelwch eu hunain.

3.46 'Os na fyddwn ni'n caniatáu i blant brofi risg wedi ei reoli, rwy'n pryderu'n arw ynghylch y dyfodol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle. Os y bydd y genhedlaeth nesa'n symud ymlaen i'r gweithle wedi cael eu hamddiffyn rhag pob perygl fyddan nhw nid yn unig ofn risg, ond hefyd fe fyddan nhw hefyd yn gwbl ddiniwed ynghylch risg…"
Judith Hackitt, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Mai 2008

3.47 Yn ddiweddar comisiynodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd y Fforwm Diogelwch Chwarae i gynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr chwarae fel rhan o Strategaeth Diogelu Plant Llywodraeth y DU. Mae'r canllawiau hyn, *Managing Risk in Play Provision*, yn cynrychioli agwedd synnwyr cyffredin sy'n cydnabod nad yw plant a phobl ifainc yn elwa o (na'n croesawu) cael eu lapio mewn gwlân cotwm, a bod buddiannau cwbl amlwg i ddarparu cyfleoedd iddynt greu a phrofi sefyllfaoedd ble y gallant ddelio â a chreu heriau ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae.

3.48 Mae *Managing Risk in Play Provision*, a gymeradwywyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn arwydd o symud i ffwrdd oddi wrth y defnydd o asesiadau risg, gan gyflwyno proses o asesu risg / budd sy'n taro cydbwysedd rhwng y perygl o niwed yn erbyn y buddiannau gaiff plant o brofi a chreu risg fel rhan naturiol o chwarae.

**Ardaloedd chwarae mwy diogel a buddiannau breintiedig**

3.49 Cynhyrchwyd safonau mewn ymdrech i wneud ardaloedd chwarae'n fwy diogel ar gyfer plant (ac i leihau'r tebygolrwydd o ymgyfreithiad costus). Fodd bynnag, cafodd y safonau hyn eu dehongli mewn modd cwbl gaeth gan y mwyafrif o'r bobl sy'n comisiynu datblygu neu'n adnewyddu ardaloedd chwarae a gan wneuthurwyr arwynebau diogelwch a meysydd chwarae ac arolygwyr diogelwch chwarae, er nad oes unrhyw anghenion cyfreithiol i lynu atynt a'u bod wedi eu bwriadu fel canllawiau.

3.50 Mae gwneuthurwyr arwynebau diogelwch a meysydd chwarae ac arolygwyr diogelwch chwarae ynghlwm â

dyfeisio a gweithredu safonau diogelwch ar gyfer ardaloedd chwarae. Ond maent hefyd yn ennill bywoliaeth o barhau'r diwylliant sy'n bodoli ar hyn o bryd, ble fo llawer o arian yn cael ei wario ar ffensys ac arwynebau diogelwch, ymysg pethau eraill.

3.51 Yn achos arwynebau diogelwch sy'n amsugno gwrthdrawiadau, amcangyfrifir bod oddeutu £250 miliwn wedi cael ei wario yn y DU ers i'r canllawiau Ewropeaidd gael eu cyflwyno mewn ymgais i atal plant rhag cael anafiadau difrifol wrth gwympo. Dywed Yr Athro David Ball wrthym nad oes unrhyw dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod yr arwynebau hyn wedi atal yr un farwolaeth a bod tystiolaeth ar gael sy'n dynodi bod rhai arwynebau sy'n amsugno gwrthdrawiadau wedi cyfrannu at gynnydd mewn anafiadau i esgyrn hirion. Gellid fod wedi gwario'r £250 miliwn yma'n wahanol er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifainc i gael mwy o ddewisiadau, a dewisiadau gwell, ar gyfer chwarae allan a chymdeithasu.

**Bwlio**

3.52 Gall elfennau o ddiwylliant chwarae fod yn greulon tuag at bobl eraill yn ogystal â tuag at anifeiliaid.

3.53 'Mae'n ymddangos bod plant fydd yn wynebu ac yn goresgyn digwyddiadau gweddol ingol yn ystod eu bywyd mewn gwell sefyllfa i ddelio â gwahanol elfennau o straen sylweddol yn hwyrach yn eu bywydau...' (Haglund et al, fel a ddyfynnir yn *Play for a Change*)

3.54 Tra bo erledigaeth dros gyfnod maith yn amlwg yn niweidiol i unigolion a'u teuluoedd, nid yw peidio â goddef unrhyw fath o fwlio neu bryfocio o fudd. Bydd rhywfaint o straen gaiff ei brofi o fewn cyd-destun cyffredinol ddiogel yn ein helpu i ddatblygu ymatebion priodol a bydd yn cynyddu ein gwytnwch. Mae pryfocio a 'thynnu coes' yn rhan o chwarae cymdeithasol. Tra ein bod yn cydnabod bod bwlio yn fater real iawn i rai plant, mae safbwyntiau ynghylch yr hyn sy'n ymddygiad priodol yn amrywio.

3.55 Yn arolwg Mencap yn 2007 dywedodd 80% o'r plant a'r bobl ifanc ag anableddau dysgu a holwyd, eu bod ofn gadael eu cartref rhag ofn iddynt gael eu bwlio. Yn eu profiad hwy roeddent yn cael eu bwlio os oeddent yn mynd i'r parc lleol, i'r ysgol neu i'r clwb ar ôl ysgol.

3.56 Mae cwerylon yn fwy tebygol o ddigwydd o fewn grwpiau o ffrindiau (mewn geiriau eraill, mewn cyd-destun digon diogel i ddim neu fawr ddim niwed gael ei achosi) nag y byddant gyda dieithriaid. Dengys gwaith ymchwil y bydd pobl sydd heb ddim (neu fawr ddim) profiad o chwarae gwyllt neu chwarae ymladd yn aml yn ei ddehongli fel gwir ymladdgarwch (*Play for a Change*). Felly efallai y gallai gwell dealltwriaeth o'r math hwn o ymddygiad ymysg pobl sy'n goruchwylio neu sy'n gofalu am blant a phobl ifainc (a'r rheini sy'n llai tebygol o'i brofi wrth iddynt dyfu i fyny), gyfoethogi ymdeimlad o ddiogelwch.

3.57 Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar feysydd chwarae ysgolion yn awgrymu bod darparu amgylchedd chwarae amrywiol a diddorol gyda nifer o opsiynau a phosibiliadau, yn lleihau achosion o fwlio'n sylweddol. Gellid cymryd felly y byddai darpariaeth debyg mewn cymdogaethau gael yr un effaith.

3.58 Gellid cymryd, o waith ymchwil ar y defnydd o geir a diffyg ymddiriedaeth, bod ofn rhai plant a phobl ifainc o gael eu bwlio'n codi o ddiffyg cysylltiad â phlant a phobl ifainc eraill y tu allan i amgylcheddau gaiff eu rheoli gan oedolion.

3.59 Ond wedi dweud hynny, bydd angen inni ganfod cydbwysedd gofalus yn ogystal â magu agwedd hyblyg, sensitif er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch mewn mannau cyhoeddus a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n hyderus i rodio trwy eu cymdogaeth eu hunain.

**Cynhwysiant a gwthio i'r cyrion**

3.60 Diffiniwyd cynhwysiant fel 'y broses o ddyfeisio, dylunio, cynllunio a chynnal a chadw pob rhan o'r gymuned ddiwylliannol a ffisegol er mwyn darparu ar gyfer y sbectrwm gallu ac angen ehangaf.' *Let's Play Together: Play and Inclusion*, Ludvigsen et al, 2005.

3.61 Dylai pob plentyn a pherson ifanc allu cael mynediad i ddewis eang o ddarpariaeth chwarae yn eu hamgylchedd a'u cymuned leol fel mater o hawl. I'r mwyafrif o blant bydd hyn yn golygu mannau lleol iawn. Ble fo dibyniaeth ar ddarpariaeth arbenigol, mae plant a phobl ifainc yn fwy tebygol o orfod cael eu cludo allan o'u cymuned leol i ddarpariaeth 'cyrchfan' ac maent felly'n llai tebygol o ffurfio

perthnasau ac ymddiriedaeth o fewn eu cymdogaeth eu hunain.

**Plant anabl**

3.62 Oherwydd datblygiadau ym maes meddygaeth, ceir nifer cynyddol o blant â namau sy'n goroesi genedigaeth a babandod ac sydd angen cefnogaeth i gael mynediad i, ac i wneud y gorau o gyfleoedd chwarae. Mae'r plant hyn yn tueddu i wynebu yr un rhwystrau (ond sydd yn aml yn anoddach i'w goresgyn) i chwarae allan a chymdeithasu. Mae adroddiad Barnardo's *Postcards from Home, the experience of disabled children in the school holidays* yn nodi enghreifftiau o rai o'r rhwystrau y bydd plant a phobl ifainc anabl yn eu wynebu wrth geisio cael mynediad i gyfleoedd cymdeithasu a chwarae yn ystod y gwyliau ysgol ym Mhrydain.

3.63 Mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo darpariaeth chwarae cynhwysol wedi ei staffio sy'n rhad ac am ddim (dan do a'r tu allan) ar gyfer POB plentyn yn eu cymuned leol eu hunain ble fo gweithwyr chwarae wedi eu hyfforddi i gwrdd â'u anghenion chwarae. Mae darpariaeth gynhwysol o safon yn cynorthwyo gyda'r broses o lunio perthnasau o fewn cymunedau ac mae'n darparu cyfleoedd i anghenion pob plentyn i gael eu hateb yn yr un amgylchedd di-stigma. Mae rhwystrau penodol i weld plant a phobl ifainc yn cael mynediad i ddarpariaeth o'r fath yn cynnwys:

- Ei brinder
- Disgwyliad rhai pobl bod gweithwyr chwarae angen hyfforddiant arbenigol i weithio gyda rhai plant anabl
- Y gred mai dim ond mewn amgylchedd arbenigol y gellir ateb anghenion rhai plant a phobl ifainc
- Diffyg cefnogaeth wedi ei gydlynu gan wasanaethau eraill
- Diffyg cyfathrebu'n effeithlon gyda, a chefnogaeth ar gyfer, rhai teuluoedd

**Grwpiau lleiafrifol**

3.64 Golygodd llacio rheoliadau cyflogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd dros y blynyddoedd diwethaf bod Cymru bellach

yn gartref i fwy o grwpiau lleiafrifol, gwahanol, o bwys nac o'r blaen.  Yn ein profiad ni, nid yw ein darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol wedi dala lan hyd yma.

3.65 Mae llawer o blant a phobl ifainc sy'n byw mewn cymunedau ar y cyrion (ffoaduriaid a cheiswyr lloches; sipsiwn a theithwyr; grwpiau lleiafrifol diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol) yn tueddu i fyw bywydau sy'n gyfochrog â phobl mewn cymunedau mwyafrifol (*Play for a change*).  Mae diffyg cysylltiad o'u geni (â gwahanol grwpiau chwarae a chymdeithasol, ysgolion, siopau ac yn y blaen) yn dwysáu diffyg ymddiriedaeth a chynefindra sy'n milwriaethu'n erbyn gweld teuluoedd sydd ar y cyrion yn teimlo'n hyderus i'w plant chwarae allan neu gael mynediad i ddarpariaeth chwarae cynhwysol sy'n bodoli eisoes.  Ceir hefyd, ymysg rhai teuluoedd, ofn glastwreiddio eu diwylliant, ac mae gan wahanol ddiwylliannau wahanol syniadau ynghylch gwerth a statws chwarae.

3.66 Ceir tystiolaeth bod plant a phobl ifainc sydd mewn rhai grwpiau ar y cyrion yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus yn gwneud defnydd o ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio gaiff ei ddarparu yn eu cymuned 'leiafrifol' eu hunain yn hytrach na mewn darpariaeth 'prif ffrwd'.  'Does fawr ddim o'r math yma o ddarpariaeth ar gael yng Nghymru.  Mae cynnig darpariaeth cynhwysol mynediad agored wedi ei staffio, heb gymryd camau pendant tymor hir i sicrhau y gall plant a phobl ifainc lleiafrifol a 'chyfochrog' dderbyn eu hawl i chwarae a chymdeithasu, yn milwrio'n erbyn gweld plant a phobl ifainc sydd ar gyrion cymdeithas yn gwneud defnydd o'r ddarpariaeth.

3.67 Mae ambell i ymweliad â gweithgareddau prif ffrwd yn aneffeithiol fel integreiddwyr.  Dangoswyd bod rhyngweithio 'bob dydd', dyddiol, estynedig a mesurau megis cyflogi a hyfforddi aelodau o wahanol grwpiau ieithyddol a diwylliannol a'u cefnogi i weithio'n effeithlon gydag oedolion (mewn rôl addysgol ac eiriolaeth) yn ogystal â phlant (mewn rôl gwaith chwarae) yn cynyddu hyder a thrwy hynny fynediad i ddarpariaeth.  Mae ariannu un-tro a thymor byr yn milwrio'n erbyn llwyddiant mentrau o'r fath.

**Cyfranogaeth a chydweithredu**

3.68 Bellach mae gan blant a phobl ifainc fwy o gyfle i bobl ymgynghori â nhw ynghylch dewisiadau ar gyfer eu darpariaeth chwarae lleol nac erioed o'r blaen. Ond yn aml gall ymgynghori fod yn llai effeithiol na'r disgwyl:

- ble nad oes gan blant a phobl ifainc brofiad o ystod eang o ddewisiadau byddant yn dewis yr hyn y maent yn gyfarwydd ag e'n barod;
- ble nad yw'r rheini sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad yn deall ystod anghenion chwarae plant a phobl ifainc;
- ble fo dewisiadau'n cael eu cyfyngu oherwydd dewisiadau oedolion, eu diffyg gwybodaeth ynghylch yr ystod o ddewisiadau, a'u hymlyniad at fodelau a safonau 'traddodiadol';
- ble fo gwneuthurwyr offer meysydd chwarae'n cynnal yr ymgynghoriad (oherwydd buddiant breintiedig);
- a ble fo'r rheini sy'n cynnal yr ymgynghoriad ddim yn gwneud defnydd o arsylwadau a gwerthusiad gwrthrychol o wir ymddygiad chwarae plant a phobl ifainc trwy ddiwrnod cyfan, wythnos a'r tymhorau yn eu hardal leol.

3.69 Gall prosesau ymgynghori gael eu peryglu hefyd oherwydd:

- Ble y byddwn yn ymgynghori â rhieni, maent yn dueddol o gyfeirio at yr hyn y maent yn credu yw anghenion eu plant eu hunain ar hyn o bryd, yn hytrach na ystyried y dyfodol – gall eu profiadau fod yr un mor gyfyngedig â phrofiadau eu plant
- Bydd plant a phobl ifainc yn ceisio cael eu derbyn a'u cymeradwyo – felly mae'n bosibl na fyddant yn barod i gynnig syniadau neu farnau y maent yn credu fydd ddim yn cydymffurfio â rhai'r oedolion dan sylw
- Yn aml bydd y plant a'r bobl ifainc gaiff eu dethol gan oedolion i gael eu ymgynghori'n unigolion sy'n cydymffurfio â safonau a dewisiadau oedolion
- Byddai gwir gydweithredu yn gweld plant a phobl ifainc (yn cynnwys gwir groestoriad o bob un allai, o bosibl, ddefnyddio'r ddarpariaeth chwarae ac i ryw raddau, eu teuluoedd a'r gymuned leol), sydd wedi cael eu hwyluso i ennill gwybodaeth a phrofiad o ystod eang o bosibiliadau,

yn cael eu cefnogi i fod ag elfen sylweddol o reolaeth dros a chwarae rhan yn staffio, comisiynu, dylunio, adeiladu, cynnal a chadw, ail-adeiladu a defnyddio eu darpariaeth chwarae a'u amgylchedd lleol eu hunain. Caiff y model hwn ei arddangos yn llwyddiannus ar feysydd chwarae antur traddodiadol wedi eu staffio ac mewn rhai esiamplau o gyfranogaeth y gymuned mewn ardaloedd chwarae lleol.

## 4. Rhwystrau i chwarae allan a chymdeithasu'n hyderus

### Amgylchedd

4.1 Mae astudiaeth gan Groundwork UK, oedd yn edrych ar anghenion chwarae plant yn eu cymunedau, yn pwysleisio'r angen am fannau cyhoeddus croesawus o safon:

4.2 'Y rhwydwaith parhaus hwnnw o balmentydd, strydoedd, tir amwynder, parciau, meysydd chwarae, sgwarau trefi, cyrtiau blaen a thalarau (e.e. cyrtiau blaen gorsafoedd pwmpio neu feysydd parcio parciau manwerthu) a mannau agored palmantog eraill sy'n creu'r tiriogaeth cyfarwydd a'r cysylltiad hwnnw …'

4.3 Canfyddodd astudiaeth arsylwadol o ddefnydd plant o'u hamser sbâr a'u cymdogaeth leol a gynhaliwyd yn 2004 fod gan '… y mannau awyr agored y bydd plant o bob oedran yn dewis treulio eu hamser ynddynt ffiniau amwys: mae'n ymddangos eu bod yn hoffi mannau eang, agored am beth o'r amser, ond bryd arall mae'n well ganddynt fannau sydd â waliau.  Ar ddiwrnod arall byddant yn chwilio am ddeunyddiau naturiol … ac ar diwrnod arall byddant yn glynu i fyd artiffisial y stryd …' Marc Armitage, *Hide and Seek, where do children play after school*, 2004.

4.4 Cymerodd plant a phobl ifainc yn Livingstone ran mewn astudiaeth ble yr aethant ati i dynnu llun map o'u hoff fannau chwarae:  'Gan fod plant yr un mor debygol o dynnu llun siop leol â chanolfan hamdden, llwybr wrth ymyl y gamlas â man chwarae yr awdurdod lleol, maes parcio â pharc cyhoeddus, yr ensyniad yw bod Livingston yn meddu ar ddaearyddiaeth cymdeithasol o chwarae sy'n fwy dryslyd na'r disgwyl (o leiaf i'r rheini sy'n llunio polisïau).'  Thompson a Philo, 2004.

4.5 'Fydd y rhan fwyaf o chwarae ddim yn digwydd ar safleoedd a benodwyd yn ffurfiol fel mannau chwarae … Mae presenoldeb gweledol plant a phobl ifainc yn … defnyddio

mannau cyhoeddus yn arwydd o gymuned iach.' *Getting Serious About Play*, DCMS, 2004

## Y siwrnai

4.6 Mae'r siwrnai rhwng gwahanol leoliadau yr un mor bwysig i blant a phobl ifainc ag yw'r mannau ble fo croeso iddynt aros i chwarae a chymdeithasu – mae mudoledd annibynnol hyderus neu mudoledd a gefnogir mewn modd sensitif yn allweddol. Yn ddelfrydol, ni fydd chwarae a chymdeithasu'n dod i ben wrth glwyd yr ysgol ac yn ailddechrau yn y parc neu yn y cartref. O ran creu ymdeimlad o ddiogelwch a hyder mewn chwarae allan a chymdeithasu, ddylen ni ddim gwahanu amser gaiff ei dreulio ar balmentydd, mewn lonydd cefn, ar ffyrdd, palmentydd, tanffyrdd, neu ar deithiau bws ysgol oddi wrth yr amser gaiff ei dreulio mewn 'cyrchfannau'.

4.7 Bydd plant a phobl ifainc sydd â mudoledd annibynnol yn ymweld â meysydd chwarae ond fel arfer bydd yr ymweliadau hyn yn llunio rhan o siwrnai yn hytrach na bod yn gyrchfan.

## Y maes chwarae 'traddodiadol'

4.8 Cyn y 1800'au 'doedd dim cysyniad yn bodoli y dylai gofod ar gyfer chwarae plant fod ar wahân i unrhyw ofod arall – byddai plant a phobl ifainc yn chwarae ble y gallent, pryd y gallent. Bryd hynny, roedd y mwyafrif o plant a phobl ifainc yng Nghymru'n byw mewn amgylcheddau gwledig neu rhannol-wledig ble, er efallai nad oedd eu bywyd yn ddelfrydol, roedd gan y mwyafrif fynediad i goedydd, caeau ac afonydd i chwarae ynddynt pryd bynnag yr oedd cyfle ganddynt. Roedd y math yma o leoedd yn cynnig cyfle i chwilio am a chreu anturiau, 'i ymgysylltu â'u hamgylchiadau naturiol, i brofi newid a dilyniant, i fod yn gymdeithasol neu'n unig, i greu bydoedd dychmygol, i herio ffiniau, i adeiladu a newid eu hamgylchiadau …' gwefan Playlink.

4.9 Dechreuodd mannau chwarae penodedig ymddangos yn raddol mewn dinasoedd Americanaidd ac Ewropeaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceisiodd diwygwyr dinasoedd greu opsiynau iachach, mwy diogel ar gyfer plant mewn mannau trefol (ble roedd parciau a gerddi'n brin ac roedd cryn berygl i iechyd plant oherwydd diffyg

glanweithdra cyhoeddus a phrinder rheoliadau traffig). Ar y pryd, adeiladwyd offer chwarae pren a metal i wneud yn iawn am ddiffyg coed i'w dringo, a chrewyd pyllau tywod i wneud yn iawn am ddiffyg mannau glân i dyllu ynddynt. Er gwaethaf ei effeithlonrwydd neu ei addasrwydd, mae'r model 'darpariaeth seiliedig ar offer' hwn ar gyfer chwarae plant yn parhau hyd heddiw, mae'n cael ei ystyried yn draddodiadol.

4.10 Mae gwaith ymchwil arsylwadol a gynhaliwyd yn y DU ac Ewrop yn awgrymu, o gael y dewis, y bydd plant a phobl ifainc sydd â mudoledd annibynnol fel arfer yn defnyddio meysydd chwarae traddodiadol am gyfnodau byr iawn oherwydd bod mannau eraill (a'r daith o amgylch y gymdogaeth) yn cynnig mwy o bosibiliadau a diddordeb.

**Yr unig le i blant**

4.11 Yn aml iawn, mannau chwarae 'traddodiadol' yw'r unig fannau yn yr amgylchedd adeiledig sydd wedi eu neilltuo a'u dylunio (waeth pa mor dda neu wael) yn benodol ar gyfer plant a phobl ifainc – ble fo chwarae'n cael ei ystyried yn weithgaredd ddilys. Yn hyn o beth, mae gwerth neilltuol iddynt hyd yn oed pan nad oes fawr ddim gwerth chwarae iddynt (fel a welir yn adroddiad Draig Ffynci). Fodd bynnag, un o ganlyniadau anfwriadol bwriadau da yr ymgyrchwyr meysydd chwarae cynnar yw bod darpariaeth ar gyfer chwarae plant bellach yn cael ei ystyried ar wahân, ac yn wahanol i ddarpariaeth ar gyfer bywyd bob dydd cymdeithas.

4.12 Mae astudiaeth Roger Hart yn 2002 o gynllunio ar gyfer chwarae yn Efrog Newydd (*Containing Children: Some lessons on planning for play from New York City*) yn dangos bod hanes o gynllunio mannau chwarae er mwyn "dal" plant – oherwydd ofn **yn eu cylch** ac ofn **y plant** eu hunain. 'Dyw mannau wedi eu cynllunio gan oedolion yn perthyn fawr ddim i ddewisiadau plant, prin iawn yw potensial yr offer gaiff ei ddarparu o'i gymharu ag amrywiaeth y profiadau chwarae gaiff eu cynnig mewn amgylchedd mwy naturiol, ac maent hefyd yn ynysu plant oddi wrth bywyd bob dydd cymdogaethau, yn aml trwy ffensio plant i mewn i safleoedd penodol. Mae Hart yn dadlau mai'r hyn sydd ei angen yw 'nid mwy o feysydd chwarae wedi eu segregeiddio, ond ymgais well i wneud cymdogaethau'n ddiogel ac yn groesawus i blant, gan ymateb i'w dewisiadau personol ar gyfer chwarae rhydd yn nes at adref.'

4.13 Prin y bydd ein amgylchedd dylunedig a chynlluniedig yn cwrdd ag anghenion chwarae plant – mae'r enghreifftiau'n rhy niferus i gyfeirio at bob un, ond un enghraifft benodol yw'r diffyg darpariaeth ar gyfer sglefrfyrddio mewn mannau cyhoeddus. I'r mwyafrif o sglefrfyrddwyr mae elfen o berfformiad cyhoeddus ynghlwm â'r gamp, bydd angen arwynebau llyfn a cheir hefyd elfen o 'gicio'n erbyn y tresi' a cheisio heriau. Felly mae pobl ifanc yn aml wedi dewis cwrdd yng nghanol y dref, i ymarfer a chwilio am heriau gan ddefnyddio elfennau amgylcheddol sydd heb eu dylunio'n benodol ar gyfer sglefrfyrddio arnynt. Ar y cyfan, yn hytrach na darparu ar gyfer yr anghenion hyn yn eu cynlluniau a'u cyd-blethu ag anghenion cerddwyr, bydd cynllunwyr yn mynd ati i sicrhau na ellir sglefrfyrddio yno, neu caiff cyllid ei wario'n ffitio neu'n gosod mesurau gwrth-sglefrfyrddio. Caiff sglefrfyrddio, am nifer o wahanol resymau, yn cynnwys ofn a diffyg ymddiriedaeth mewn ymddygiad pobl ifainc, ei ystyried yn dderbyniol dim ond mewn parciau sglefrfyrddio penodedig sydd ar wahân i weddill cymdeithas – a thra bo sglefrfyrddwyr ifainc yn croesawu darpariaeth ar gyfer eu chwarae, gall hyn arwain at danlinellu ymdeimlad o gael eu dieithrio oddi wrth weddill y gymuned.

4.14 Mae gwaith yn yr Iseldiroedd yn dangos inni bod cynnwys nodweddion 'chwareus' yn y broses o ddylunio mannau cyhoeddus yn cael effaith o 'normaleiddio' y syniad bod plant a phobl ifainc yn chwarae'n cael eu cynnwys ym mywyd y gymuned. Mae'r nodweddion hyn yn rhai syml a rhad – er enghraifft, meinciau sydd wedi eu dylunio i bobl eistedd arnynt neu dringo drostynt, palmentydd sy'n cynnwys ambell i garreg liw yma ac acw ...

**Ffensys**

4.15 Yn aml iawn bydd mannau chwarae plant wedi eu hamgylchynu â ffensys, gyda'r pwrpas o hyrwyddo diogelwch – i atal plant ifainc rhag crwydro, ac i wahanu plant a chŵn – bydd gosod a chynnal a chadw ffensys yn golygu cryn gostau i ddarparwyr meysydd chwarae.

4.16 Mae ffensio mannau chwarae er mwyn amddiffyn plant sy'n chwarae rhag cŵn (a'u baw) wedi creu eironi rhyfedd; caiff plant sy'n chwarae eu ffensio i mewn (yn aml) mewn sgwarau diffaith â lloriau rwber, tra fo cŵn a'u perchnogion (sy'n oedolion) yn mwynhau'r amgylchedd chwarae cyfoethocach a'r rhyddid gaiff ei gynnig gan barciau neu

feysydd chwaraeon... Ar ochr arall, fwy rhydd, y ffens mae perchnogion cŵn anghyfrifol yn golygu bod mannau naturiol sydd â photensial chwarae'n aml iawn yn frwnt.

4.17 Dengys astudiaeth gan Marc Armitage (*Hide and Seek – where do children spend their time after school?* 2004) mai un elfen allweddol y bydd plant yn tueddu i'w osgoi pan fyddant yn penderfynu ble i chwarae yw ffensys, 'yn syml iawn, dydyn nhw ddim yn eu hoffi ac yn aml byddant yn mynd ati'n weithredol i'w tynnu i lawr – weithiau er mwyn gwneud mynediad yn fwy rhwydd, ac weithiau i'w gwneud hi'n rhwyddach i ddianc.' Felly gellid cymryd bod plant a phobl ifainc sy'n chwarae allan neu'n cymdeithasu'n annibynnol, yn tueddu i deimlo'n fwy diogel ble fo llai o ffensys i'w carcharu neu i atal mynediad rhydd. Yn aml caiff addasiadau rhesymol a rhesymegol y bydd plant a phobl ifainc yn eu gwneud i ffensys, i gynyddu eu hymdeimlad o ddiogelwch, yn cael eu hystyried fel fandaliaeth.

4.18 Bydd cynllunio ansensitif ffensys yn torri ar draws 'lwybrau chwarae', y llwybrau, y lonydd a'r mynedfeydd naturiol i'w tirnodau eu hunain, a ddefnyddir gan blant a phobl ifainc wrth iddynt chwarae allan a chymdeithasu – fydd oedolion, yn aml iawn, ddim yn sylwi arnynt. Bydd rhwystrau anhyblyg yn cyfyngu ar natur addasadwy'r gofod – gan lesteirio chwarae ac unwaith eto maent yn creu canfyddiad y dylai chwarae ond digwydd o fewn gofod sydd wedi ei ffensio. Caiff y sefyllfa yma ei gwaethygu ymhellach pan gaiff parciau a mannau chwarae eu cloi a phan gaiff plant a phobl ifainc eu heithrio o'r unig fan yn y gymdogaeth a bennwyd iddynt chwarae allan ynddi – ble fo'u chwarae'n cael ei ystyried yn weithgaredd ddilys.

4.19 Yn Stirling, Yr Alban, llwyddodd polisi o gadw 'digon' o ffensys, dim ond ble fo maes chwarae gerllaw perygl posibl (e.e. ger ffordd), o greu rhwystrau naturiol y gellir chwarae arnynt, a rhaglen addysgol arbennig ar gyfer perchnogion cŵn, at lwyddo i integreiddio mannau chwarae penodol ar gyfer chwarae plant i mewn i amgylchedd mwy dymunol ar gyfer y gymuned gyfan.

4.20 Mewn dinasoedd yn Siapan ceir meysydd chwarae antur wedi eu staffio sydd heb unrhyw ffensys, i ddweud y gwir ceir rhai sydd â llwybrau cyhoeddus yn rhedeg trwyddynt, sy'n creu'r ymdeimlad o fod yn rhan annatod o'r gymuned yn hytrach na bod mewn cilfach ar wahân. Ond yng Nghymru, yn aml iawn bydd cwmnïau yswiriant yn parhau i fynnu gosod ffensys neu rwystrau o amgylch darpariaeth chwarae

newydd wedi ei staffio ble fo tai yn y cwestiwn – er enghraifft, ym maes chwarae antur Cwm Gwenfro yn Wrecsam neu faes chwarae antur Penlan yn Abertawe.

**Mannau chwarae hygyrch**

4.21 ‘Mae ymdeimlad o gynhwysiant yn dibynnu mwy ar gyfeillgarwch a hwyl na dim ond bod yn yr un lle â phobl eraill,’ *People Play Together More,* MacIntyre a Casey, 2007.

4.22 Gan fod pob plentyn yn unigolyn ag anghenion newidiol a gwahanol, pur anaml fydd mesurau megis gosod offer arbenigol ar gyfer plant penodol ar feysydd chwarae’n llwyddo i ateb anghenion pob plentyn – ond maent yn anfon neges bod croeso i bob plentyn i ddod i chwarae. Yn aml bydd mesurau i ehangu hygyrchedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sy’n cynrychioli cyfran fechan o blant anabl, ac ni wneir defnydd o agwedd leol gydweithrediadol (er bod mynediad i gadeiriau olwyn hefyd o fudd i bobl sy’n gwthio pramiau).

4.23 Mae Alison John a Rob Wheway yn awgrymu yng nghyhoeddiad The National Playing Fields Association (a adnabyddir bellach fel Fields in Trust) “Can Play Will Play”: ‘y criteria y dylid ei ddefnyddio ar gyfer barnu hygyrchedd yw … os oedd modd i’r plentyn anabl allu chwarae yn y maes chwarae, yn hytrach nac os oedd modd iddynt wneud defnydd o ddarn penodol o offer, neu i gwblhau gweithgaredd benodol. Felly, dylai’r pwyslais fod ar allu’r plentyn i chwarae, yn hytrach nag ar gynllun technegol yr offer. Dylai adlewyrchu’r hyn fydd plant yn dewis ei wneud. Ni fydd plant sydd ddim yn anabl o anghenraid yn defnyddio pob eitem o offer; mae ganddynt wahanol lefelau o allu; nid yw hyn yn golygu nad oes modd iddynt chwarae ar y maes chwarae.’

4.24 Canfyddodd Wheway a Millward yn *Child’s Play: Facilitating play on housing estates* bod ‘poblogrwydd maes chwarae’n dibynnu’n bennaf ar ei leoliad ger cartrefi ac os oes modd ei weld o gartrefi neu gan oedolion eraill y mae’r plant yn ymddiried ynddynt a chyflymdra isel cerbydau’n mynd heibio’. Gellid cymryd bod y ffactorau hyn yn hybu ymdeimlad o ddiogelwch sy’n annog ei ddefnyddio. Mae gwaith ymchwil arall gan Wheway, ar ran awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau tai, wedi cadarnhau bod yr agweddau hyn yn bwysicach na lefel a chyfanswm yr offer.

4.25 Casgliad John a Wheway yw bod ‘maes chwarae hygyrch yn un ble y gall plant anabl chwarae’n rhydd gyda’u ffrindiau.’ Mae’r casgliad hwn yn ein rhyddhau rhag canolbwyntio’n ormodol ar offer ac yn caniatáu inni ganolbwyntio ar weld pob plentyn yn cael y rhyddid i chwarae gyda’i gilydd.’

4.26 Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd mewn ysgol arbenigol yn Sussex ar gyfer plant a phobl ifainc ag anhwylderau sbectrwm awtistig yn awgrymu bod ail-ddylunio sensitif a gofalu iawn o’u hardal chwarae, yn seiliedig ar eu anghenion chwarae personol yn hytrach na model traddodiadol, wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu lefel o ryngweithio cymdeithasol a’u chwarae. Un o’r canfyddiadau allweddol oedd llwyddiant cyflwyno offer chwarae mwy heriol – yr oedd rhai elfennau ohono y tu hwnt i allu’r plant ar y pryd.

4.27 Yng Nghymru’n gyffredinol mae prynu offer maes chwarae arbenigol i ateb gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd wedi arwain at greu meysydd chwarae sy’n ‘gyrchfannau’ (h.y. sy’n gofyn i rywun deithio yno’n arbennig i’w ddefnyddio) i rai plant anabl (y mae eu mudoledd annibynnol yn brin).

4.28 Gan nad oes gan y mwyafrif o feysydd chwarae traddodiadol fawr ddim gwerth chwarae, mae dibyniaeth ar ddarparu ar gyfer plant penodol trwy osod offer arbenigol yn annhebygol o ateb eu anghenion chwarae, nac unrhyw blentyn arall, ac mae’n gwneud cam â phawb. Efallai y byddai darpariaeth lleol hygyrch, an-arbenigol a hwyluso mudoledd ‘annibynnol’ ac ymddiriedaeth a chyfeillgarwch o fewn y gymuned leol yn ddefnydd mwy effeithlon o arian.

## Safonau a safoni

4.29 Dywed Helle Nebelong, y dylunydd meysydd chwarae Danaidd nodedig: ‘Gall ardaloedd chwarae wedi eu safoni sy’n llawn dop o offer parod, llachar fod nid yn unig yn ddiflas i blant, ond gallant hefyd fod yn beryglus. (Er enghraifft) pan fo’r pellter rhwng grisiau ar ysgol yn union yr un peth, fydd dim angen i’r plentyn ganolbwyntio.’

4.30 Mae’n bosibl y byddai rhai gwneuthurwyr offer meysydd chwarae’n protestio, ond ceir tystiolaeth sy’n awgrymu bod gweithio yn unol â safonau wedi arwain at weld ardaloedd chwarae’n troi’n fwyfwy diflas ac o’r herwydd yn llai deniadol i blant. Mae ymgyfreithio, a’r bygythiad o ymgyfreithiad, wedi

cael effaith sylweddol ar gynlluniau meysydd chwarae – sydd bellach wedi eu safoni ac yn cael eu cymeradwyo gan oedolion, ond sydd ddim yn ateb anghenion plant a phobl ifainc i greu a wynebu risg ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae.

## Llanast a difrod

4.31 Rydym yn deall hyd yn oed cyn y dirwasgiad, bod cyllidebau cynnal a chadw ac atgyweirio ardaloedd chwarae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael eu cwtogi ...

4.32 Yn *Pam fod Oedrannau Pobl yn Mynd Lan ac Nid i Lawr?* dywedodd plant a gymerodd ran yn adroddiad Draig Ffynci bod diffyg amgylcheddau chwarae glân yn gwneud iddynt deimlo'n ansicr. Mae llawer o blant yn sensitif i fannau chwarae sydd wedi cael eu baeddu – gan anifeiliaid, gwastraff peryglus neu ormodedd o sbwriel, ond mae arsylwadau'n dweud wrthym nad yw mannau dilychwin bob amser yn amgylcheddau chwarae cyfoethog neu'n fannau y bydd plant yn eu dewis ar gyfer chwarae a chymdeithasu.

4.33 O gael y rhyddid i ateb eu anghenion chwarae eu hunain, bydd plant yn tueddu i gasglu gwahanol ddeunyddiau ar gyfer eu chwarae – er enghraifft, eitemau naturiol fel canghennau neu laswellt wedi ei dorri, a pharaffernalia oedolion wedi ei waredu (e.e. torion carpedi, cardbord a phaledau). Tra bo'r eitemau hyn a ganfyddwyd yn cael eu defnyddio, fydd plant a phobl ifainc ddim yn tueddu i'w hystyried yn sbwriel – maent yn drysorau – nes iddynt gael eu gwaredu neu eu hail-ddefnyddio eto. Caiff peth sbwriel ei dderbyn fel bod yn ddilys – er enghraifft, ceir tystiolaeth cynyddol fod pecynnau creision gweigion yn cael eu defnyddio i ddynodi tiriogaeth (fel a arsylwyd ar dir Prifysgol Glyndŵr a meysydd chwarae antur Llundain).

4.34 Mae'r dehongliad o'r hyn gaiff ei ystyried yn llanast yn rywbeth personol ac unigryw iawn, felly mae angen taro cydbwysedd gofalus rhwng sicrhau bod plant a phobl ifainc yn teimlo bod rhywun yn gofalu am eu hoff amgylcheddau chwarae a chymdeithasu ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel, a chaniatáu digon o ryddid iddynt wneud defnydd o bethau y maent yn teimlo all gefnogi eu chwarae. Ar hyn o bryd nid yw'r mwyafrif o bobl yng Nghymru yn cael eu hannog, ac nid oes disgwyl iddynt, i weithredu ar eu rhan eu hunain i gadw eu hardal chwarae leol yn lân a thaclus – maent yn dibynnu

ar ddarparwr yr ardal chwarae a phur anaml y byddant yn cael eu hannog i ddatblygu ymdeimlad o berchenogaeth neu gyfryngaeth. Golyga hyn fod gwybodaeth leol ymysg plant, pobl ifainc ac oedolion ynghylch pa 'sbwriel' sy'n bwysig a beth sydd ddim, yn cael ei golli, a bod agwedd allai fod yn ansensitif, sy'n cael ei gorfodi gan oedolion, yn cael ei mabwysiadu tuag at daclusrwydd.

4.35 Mae'r Comisiwn Coedwigaeth (gyda chefnogaeth Tim Gill) wedi mabwysiadu protocol sensitif ar gyfer delio ag addasiadau pobl ifainc o'r amgylchedd (e.e. cuddfannau a siglenni rhaff) ar eu tir, yn enwedig o ystyried iechyd a diogelwch.

4.36 Mae difrod i ardaloedd chwarae'n tueddu i gael ei labelu fel fandaliaeth, ac o'r herwydd mae'n achosi ansicrwydd a ffieidd-dod ymysg y rheini nad oeddent yn rhan o'r drwg. Fodd bynnag, ceir peth difrod nad yw'n ddifrod maleisus, bydd plant a phobl ifainc nad yw eu anghenion chwarae'n cael eu hateb yn yr unig fan a glustnodwyd iddynt ymgynnull a chwarae ynddo, yn debygol o geisio addasu neu ddefnyddio offer mewn modd gwahanol i'r pwrpas y'i bwriadwyd, er mwyn ei wneud yn fwy cyffrous ac i ddynodi perchenogaeth. Un elfen o chwarae yw profi deunyddiau ac adeiladwaith, i ddinistrio ac ail-adeiladu, ceir hefyd elfen gref o'r angen i greu posibiliadau newydd – pur anaml fydd offer sefydlog yn darparu ar gyfer hyn ac mae'n tueddu i ddioddef o ganlyniad, bydd gan hyn oblygiadau o ran yr adnoddau ariannol a ddefnyddir i ddarparu a chynnal a chadw ardaloedd chwarae.

4.37 Mae difrod yn fwy tebygol o ddigwydd ble fo'r unig offer chwarae sydd ar gael wedi ei gynllunio ar gyfer plant ifainc iawn. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd chwarae (er eu bod efallai'n honni eu bod yn darparu ar gyfer plant o bob oed a gallu) mewn gwirionedd ond yn ateb anghenion plant iau; pur anaml y ceir darpariaeth ddigonol ar gyfer plant dros 8 mlwydd oed.

4.38 Mae tystiolaeth gan Wasanaethau Hamdden Reading o ddiwedd y 1980'au, yn awgrymu ble fo mannau'n cael eu clustnodi, eu dylunio a'u lleoli'n briodol yn benodol â chydweithrediad y bobl ifainc (fel bod ganddynt eu lle eu hunain, sy'n addas ac yn ddilys iddynt gymdeithasu yno) fe'u defnyddir fwyfwy gan ystod ehangach o bobl ifainc, sy'n cael effaith lleddfol ar yr hyn gaiff ei ystyried yn ddifrod ac yn ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Dengys profiadau a enillwyd gan staff yn The Venture yn Wrecsam bod cefnogi

rhai o'r bobl ifainc hynny a labelwyd fel rhai mwyaf gwrth-gymdeithasol y gymuned i ddylunio ac adeiladu man ar gyfer pobl ifainc yn yr ardal leol, wedi cael effaith cadarnhaol a bod yr hyn a adeiladwyd yn cael llawer o ddefnydd ond ddim yn cael ei fandaleiddio.

## Amgylcheddau gwenwynig

4.39 Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant a phobl ifainc sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fyw (ac o'r herwydd chwarae a chymdeithasu) mewn amgylcheddau sy'n beryglus neu'n wenwynig o ganlyniad i lefel uwch o draffig, achosion o droseddau, ansawdd awyr gwael a llawer mwy. Mae gwenwynau megis plwm, cadmiwm ac arian byw yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad cymdeithasol a dirnadol, gan gynnwys ymddygiadau chwarae, y gellir eu lleddfu gyfoethogi'r amgylchedd a phresenoldeb oedolion all hwyluso chwarae.  (*Play for a Change*)

## Amlygrwydd a chysgod

4.40 Un o brif bleserau a phwrpasau chwarae a chymdeithasu yw ei fod yn breifat neu'n gyfrinachol ac yn cael ei rannu gyda'n cyfoedion – mae plant a phobl ifainc angen eu mannau eu hunain ble y gallant wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Caiff hyn ei gydbwyso'n ofalus â'r angen i fod yn 'ddigon agos' i oedolion i deimlo bod cymorth posibl ar gael os aiff rhywbeth o'i le.

4.41 Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer lleoliad a chynllun ardaloedd chwarae gaiff eu defnyddio ac sy'n teimlo'n ddiogel ac sy'n awgrymu y gallai rheolaeth swyddogol ac answyddogol oedolion o ardaloedd 'ymylol' (er enghraifft, cloddiau, lonydd cefn neu dir gwyllt) gynnig mwy o opsiynau, a gwell dewisiadau, i blant a phobl ifainc o leoedd i chwarae a chymdeithasu.  Os y credir mai dim ond i feysydd chwarae penodedig y dylai plant anabl gael mynediad, byddant yn colli allan ar yr elfen hon o chwarae a chyfleoedd i gael eu cynnwys yn chwarae plant lleol.

4.42 Wrth i blant fynd yn hŷn bydd eu angen am amlygrwydd a chysgod yn newid – mae pobl ifainc yn tueddu i fod yn fwy annibynnol, ond mae'r modd y byddant yn ymgasglu o amgylch arosfannau bysiau a siopau sydd ar agor gyda'r nos

yn dangos eu bod hefyd eisiau bod yn rhywle amlwg, ble fo tyrfa o gysylltiadau cymdeithasol posibl.

4.43 Mae gwaith ymchwil o Ogledd Ffrainc yn awgrymu bod gan fechgyn a merched wahanol anghenion o ran amlygrwydd pan yn chwarae'r tu allan yn eu cymuned. Ymgynghorwyd â merched a bechgyn ynghylch ble yr oedd yn well ganddynt chwarae ac yna arsylwyd eu hymddygiad. Ar y cyfan, nid oedd ymatebion y plant i'r arolwg yn cyfateb â'u defnydd bob dydd o'r amgylchedd. Roedd merched yn chwarae mannau chwarae mwy ffurfiol ble roeddent yng ngolwg oedolion oedd yn pasio heibio, tra roedd yn well gan y bechgyn, ar y cyfan, chwarae ar gyrion cymunedau, mewn mannau oedd yn cynnig rhywfaint o gysgod.

**Ynysu gwledig**

Mae plant a phobl ifainc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn wynebu llawer o'r un rhwystrau i chwarae a chymdeithasu â phlant mewn trefi (yn bennaf, ceir wedi eu parcio a lefel a chyflymdra y traffig, ofn pobl ddieithr ac agweddau ac amgylcheddau anghroesawus). Elfen gymdeithasol chwarae a chymdeithasu yw un o'r pethau pwysicaf, ac er efallai bod gwell mynediad i amgylcheddau naturiol i chwarae a chymdeithasu ynddynt, mae mwy o bellter rhyngddynt a'u ffrindiau a llai o gyfleoedd ar gyfer mudoledd annibynnol na'u cyfoedion trefol. Mae tlodi gwledig yn rhwystr sylweddol i fudoledd annibynnol.

**Yr amgylchedd dylunedig a chynlluniedig**

4.45 Mae'r modd y caiff ein amgylchedd adeiledig ei gynllunio a'i ddylunio yn cael effaith sylweddol ar deimladau ynghylch diogelwch a hyder ac ar gyfleu dilysrwydd y chwarae. Gellid defnyddio'r arian a ddefnyddir ar hyn o bryd gan gynllunwyr a dylunwyr trefol a pheirianwyr priffyrdd mewn modd gwahanol er mwyn hybu mudoledd annibynnol plant a phobl ifainc a'u hymdeimlad o fod croeso iddynt yn eu cymunedau eu hunain, fyddai o fudd i bob aelodau o'r gymuned.

4.46 Mae'r canllawiau presennol sydd ar gael yng Nghymru'n cefnogi mentrau sy'n ystyriol o'r gymuned (ac o'r herwydd sy'n ystyriol o chwarae), ond, yn ôl yr hyn a ddeallwn, nid yw'r canllawiau hyn yn cael eu dilyn ac mae gweithwyr priffyrdd sy'n ofni cael eu dwyn i gyfraith yn glynu at hen arferion cyfarwydd.

4.47 Mae'n deg nodi nad yw'r syniad parth cartrefi wedi cael ei fabwysiadu yng Nghymru, er bod prosiectau peilot 'strydoedd DIY' wedi eu cynnal gan Sustrans mewn tair ardal. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod costau parthau cartrefi traddodiadol yn afresymol a bod y syniad delfrydol o'u cyflwyno'n gyffredinol mewn ardaloedd preswyl yn afrealistig.

4.48 Byddem yn awgrymu y dylai'r Pwyllgor ofyn am dystiolaeth gan Mike Biddulph, Uwch-ddarlithydd mewn Dylunio Trefol ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd wedi creu gwerthusiad manwl o'r fenter parthau cartrefi yn Lloegr ac sydd wedi astudio'r defnydd o fannau cyhoeddus fel mannau ar gyfer chwarae.

**Cyflymdra traffig**

4.49 Dengys gwaith ymchwil diweddar a gynhaliwyd yn Llundain ac a gyhoeddwyd yn y British Medical Journal ble fo cyflymdra'r traffig yn cael ei gyfyngu i 20 milltir yr awr (neu lai) mewn ardaloedd preswyl, gwelir lleihad sylweddol yn nifer y damweiniau, a bod nifer y plant a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol wedi ei haneru.

**Ysgolion**

4.50 I blant a phobl ifainc mae'r egwyl yn ystod y diwrnod ysgol yn adegau a mannau 'mwy diogel' i chwarae a chymdeithasu. Yng ngwaith ymchwil Diwrnod Chwarae ar gyfer ymgyrch *Amser i Chwarae* 2009, dywedodd 73% o'r plant a gyfwelwyd gan ICM mai yr ysgol yw'r prif gyfle sydd ganddynt i chwarae gyda'u ffrindiau, dywedodd 55% o'r plant eu bod weithiau'n rhuthro trwy eu cinio ysgol fel bod ganddynt amser i chwarae a dywedodd 84% o rieni eu bod yn erbyn cwtogi hyd egwyl yr ysgol.

4.51 Er y gellid dweud bod y rhan fwyaf o amgylcheddau ysgol (y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen) yn weddol ddiffaith a thlawd o ran cyfleoedd chwarae, mae bodolaeth amser a gofod wedi ei neilltuo a ffrindiau i chwarae â nhw, a phresenoldeb oedolyn y gellir mynd atynt os oes angen cymorth, o werth aruthrol i blant a phobl ifainc. Fodd bynnag, caiff yr amser a'r cyfle hwn ei erydu'n ddigon rhwydd gan reolau a normau ymddygiad yn amgylchedd yr ysgol, anghenion staffio, a gan athrawon a goruchwylwyr sydd a fawr ddim dealltwriaeth ynghylch anghenion chwarae rhydd plant a phobl ifainc (yn

bennaf o ran chwarae gwyllt a chwarae ymladd a ddangoswyd sydd o fudd penodol i gymdeithasoli a ffurfio cysylltiadau rhwng bechgyn).

4.52 Ceir tystiolaeth (*Inclusion of Disabled Children in Primary School Playgrounds*, Woolley et al, 2006) sy'n awgrymu bod rhai plant anabl yn cael llai o amser i chwarae yn yr ysgol oherwydd bod amserau chwarae'n gyfle i staff i roi moddion neu i ddarparu ar gyfer anghenion gofal personol y disgyblion – yn aml iawn, erbyn iddynt gyrraedd y maes chwarae mae'r rheolau wedi eu cytuno ac mae'r gemau wedi eu dechrau, ac o'r herwydd byddant yn cael eu heithrio'n barhaus rhag chwarae. O ystyried bod rhai plant anabl yn llai tebygol o gael cyfle i chwarae allan yn annibynnol ar ôl ysgol, mae'r defnydd yma o amser yn eu hamddifadu'n sylweddol o gyfleoedd a'u hawl i gymdeithasu a chwarae.

4.53 Yn aml iawn bydd plant a phobl ifainc yn cyfeirio at amser chwarae ac egwyl fel eu hoff adegau o'r diwrnod ysgol. Ond mae gan dîm Chwarae Cymru brofiad personol bod rhai athrawon ysgol gynradd yn gwneud defnydd rheolaidd o atal amser chwarae fel cosb – ar gyfer unigolion, ac weithiau, ar gyfer dosbarthiadau cyfan o blant. Mae gweithdrefnau cosbi mewn ysgolion uwchradd yn aml iawn yn dibynnu ar gadw plant i mewn, sy'n amddifadu disgyblion o amser rhydd ar amser egwyl neu ginio. Mae'r arfer hwn yn groes i Erthygl 31 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae'n bosibl ei fod yn wrthgynhyrchiol o ystyried fod tystiolaeth cynyddol sy'n dweud bod egwyl 'chwarae' rheolaidd yn cynorthwyo canolbwyntio a phrosesau dirnadol – yn enwedig mewn bechgyn. (*Play for a change*)

4.54 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli sy'n mynnu y dylid cynnwys egwyl, neu hyd amserau chwarae ac egwyl, yn ystod y diwrnod ysgol – mae rhai ysgolion wedi eu cwtogi neu eu gwaredu – a cheir tystiolaeth bod egwyl prynhawn yn cael ei ddileu yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn rhai mannau. Bellach ceir modelau adnabyddus o ysgolion uwchradd sydd wedi gwneud i ffwrdd â'r egwyl yn gyfangwbl. Hyd a wyddom, yr unig orfodaeth cyfreithiol ar ysgolion yw i ddarparu amser ar gyfer cinio. Golyga hyn bod hynny o amser a chyfle a roddir i chwarae a chymdeithasu yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol ar draws y wlad a'i fod yn dibynnu ar farn y rhai sy'n rheoli'r ysgol.

### Gwahanu oedrannau

4.55 Mae gwahanu plant yn ôl eu hoedrannau mewn ysgolion ar amser chwarae ac amser cinio yn cael ei ddyfynnu'n aml fel mesur i sicrhau gwell diogelwch i blant iau. Mae'r perthnasau gaiff eu ffurfio ar faes chwarae'r ysgol a'r broses o basio gwybodaeth a chwedlau ymlaen o'r plant hŷn i'r plant iau yn allweddol i sicrhau bod plant a phobl ifainc yn teimlo'n fwy diogel mewn mannau cyhoeddus. Mae tystiolaeth yn awgrymu ble fo plant a phobl ifainc o amrywiol oedrannau yn cael chwarae gyda'i gilydd, ni welir cynnydd mewn achosion o ddamweiniau neu fwlio, mewn gwirionedd bydd plant hŷn yn chwarae rôl naturiol wrth ofalu ar ôl a mentora'r rhai iau.

### Tir yr ysgol fel man chwarae mwy diogel

4.56 Mewn rhai cymunedau mae tir yr ysgol leol yn cynrychioli yr unig ofod sylweddol ble y bydd plant a phobl ifainc yn teimlo'n ddiogel i chwarae a chymdeithasu ynddo – yn enwedig ble fo'r strydoedd yn llawn o geir. Mae ein tystiolaeth arsylwadol yn awgrymu nad oes hawl gan blant a phobl ifainc i fynd ar y rhan fwyaf o dir ysgol unwaith i'r athrawon fynd adref; byddant dan glo ac yn wag gyda'r nos, ac ar benwythnosau a thrwy'r rhan fwyaf o wyliau'r ysgol – i ddweud y gwir, mewn blwyddyn gyfan byddant dan glo am fwy o amser nac y byddant ar agor.

4.57 Mae rhai ysgolion yng Nghymru wedi dioddef o gael eu 'camddefnyddio' a'u difrodi gan bobl leol – caiff arian ei wario ar fesurau diogelwch megis teledu cylch cyfyng a phatrolau. Mae gennym dystiolaeth o wledydd eraill (yn enwedig Unol Daleithiau America a Seland Newydd, ble y gellid cymryd bod materion amddiffyn plant, yswiriant a chymdeithasol digon tebyg i'n rhai ni'n bodoli) ble fo tir ysgolion yn rhan o dir cyhoeddus ac ar gael ar gyfer defnydd cymunedol ar gyfer chwaraeon a gemau – bydd y clwydi ar agor neu bydd y tir heb unrhyw ffensys o'u hamgylch trwy gydol y flwyddyn. Caiff diogelwch ei wella trwy gynnydd mewn defnydd cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau chwarae a chymunedol.

### Tir yr ysgol – argymhellion plant ar gyfer hyfforddiant

4.58 Cynorthwyodd Cyngor Cyffredinol Plant Blaenau Gwent, sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o bob ysgol gynradd yn y bwrdeistref, Dîm Chwarae Blaenau Gwent i gynhyrchu

adroddiad, *Play in Schools.* Roedd eu argymhellion yn cynnwys: ‘Hyfforddiant chwarae ar gyfer goruchwylwyr amser cinio – fel eu bod yn deall ein bod “y rhan fwyaf o’r amser, yn chwarae a’i bod yn iawn inni gael damweiniau weithiau”.’

**Clybiau ar ôl ysgol yn yr ysgol**

4.59 Mae’n bosibl y gallai gofal plant ar ôl ysgol ddarparu mannau diogel i blant a phobl ifainc chwarae a chymdeithasu.

4.60 Mae nifer o glybiau ar ôl ysgol yn bodoli ar safleoedd gaiff eu rhannu ag ysgolion, byddant hefyd yn rhannu staff gydag ysgolion – yn aml caiff cynorthwywyr dysgu eu cyflogi fel gweithwyr chwarae y tu allan i oriau’r ysgol. Bydd hyn yn arwain at weld tensiynau’n codi rhwng anghenion plant a phobl ifainc am amgylchedd chwarae cyfoethog, rhyddid a rheolaeth dros eu chwarae a’r amgylchedd chwarae cyfyngedig (cyffredinol), a’r normau ymddygiad a ddisgwylir ar dir ysgol ym mhresenoldeb staff ysgol. Mae hefyd yn arwain at sefyllfa ble fo rhai plant, y mae eu rhieni’n dibynnu ar ofal plant 360 gradd, yn treulio’r rhan fwyaf o’u diwrnod ar dir yr ysgol gyda llai o gyfleoedd i ffurfio’r math o wybodaeth lleol a pherthnasau sy’n eu helpu i deimlo’n ddiogel wrth iddynt symud o amgylch, neu chwarae a chymdeithasu yn eu cymunedau eu hunain.

**Rhyddid rhithwir i chwarae a chymdeithasu**

4.61 Mae’r rhyngrwyd a thechnoleg ffonau symudol yn cynnig cyfle sylweddol i blant a phobl ifainc i chwarae a chymdeithasu â’i gilydd, sy’n cyflafareddu effeithiau ynysu cymdeithasol ac sy’n ychwanegu at ddewis o gyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, mae Adroddiad Byron ar gyfer Llywodraeth y DU yn awgrymu bod rhai o’r un materion diogelwch, yn enwedig o ran pobl ddieithr rheibus, yn bodoli yn y byd rhithwir gymaint ag yn y byd ‘real’, a bod rhai teuluoedd yn gyfforddus esgeulus pan ddaw’n fater o gadw plant a phobl ifainc yn ddiogel yn yr arena yma.

4.62 Mae dibyniaeth rhai rhieni ar gadw eu plant yn ddiogel trwy eu hannog i aros yn y tŷ, yn gymharol lonydd, gan ddefnyddio cyfryngau electronig i ‘ddiddanu eu hunain’ nid yn unig yn golygu peryglon sylweddol i’w iechyd tymor hir, ond mae hefyd yn dwysáu ac yn parhau’r tueddiad tuag at

gael eu hynysu ymhellach oddi wrth eu amgylchedd awyr agored lleol a'r bobl ynddo.

4.63 Gellid cymryd bod y plant a'r bobl ifainc sy'n fwyaf tebygol o elwa o fannau rhithwir i chwarae a chymdeithasu ynddynt yn anabl, neu'n byw mewn ardaloedd gwledig neu gymunedau ar y cyrion. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y rhain ymysg y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o allu cael mynediad i, neu i allu fforddio'r dechnoleg angenrheidiol.

**Gwaith Chwarae a Gwaith Ieuenctid**

4.64 Ceir gorgyffwrdd strategol mewn darpariaeth chwarae ac ieuenctid. Mae llawer o wasanaethau ieuenctid yn draddodiadol wedi darparu ar gyfer plant, sydd mewn gwirionedd yn gymysgedd o waith chwarae a gwaith ieuenctid, ac yn aml bydd gweithwyr chwarae sy'n gweithio â phlant hŷn a phobl ifainc yn eu cael eu hunain yn cyflawni rolau gwaith ieuenctid.

4.65 Fodd bynnag, gellid dadlau mai un o ganlyniadau anfwriadol datblygiadau cenedlaethol y cwricwlwm gwaith ieuenctid a'r awydd i achredu popeth y bydd y gwasanaeth ieuenctid yn ei wneud ar gyfer pobl ifainc, yw lleihad yn y ddarpariaeth wedi ei staffio o gyfleoedd ar gyfer pobl ifainc i 'gymdeithasu' mewn clybiau ieuenctid, fel y byddent yn ei wneud yn y gorffennol. Cynhaliwyd gwaith ymchwil sylweddol i'r perthnasau newidiol rhwng pobl ifainc a'u rhieni a'u lefel cynyddol o annibyniaeth o fewn y cartref teuluol, dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Defnyddiwyd hyn ar brydiau fel sail resymegol ar gyfer dadlau dros gwtogi'r math hwn o fuddsoddiad ar gyfer pobl ifainc; gan bod rhai'n ystyried y gallant 'gymdeithasu gartref'. O ystyried ymatebion y bobl ifainc, mae'n amlwg nad yw hyn yn wir.

**Mentrau Diogelwch Cymunedol**

4.66 Rydym yn ymwybodol bod grwpiau fel yr Heddlu a *Communities Together* yn teimlo bod aflonyddu gan ieuenctid yn fater sydd angen sylw. Mewn rhai cymunedau ni fydd croeso i'r sŵn a'r llanast y bydd plant a phobl ifainc yn ei greu pan fyddant yn chwarae allan ac yn cymdeithasu, ac ni chaiff ei ystyried fel elfen sy'n gymdeithasol dderbyniol. Fodd bynnag, yn aml iawn bydd y mesurau gaiff eu rhoi yn eu lle i ddelio â'r materion hyn yn amhriodol ac yn anghymesur (eithrio, ASBO's a pheiriannau mosgito). Gall y

mesurau hyn gyfrannu at stigmateiddio plant a phobl ifainc, all olygu eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod wedi eu dieithrio a'u hynysu ac nad oes lle iddynt o fewn eu cymunedau eu hunain. Bydd hyn, yn ei dro, yn tueddu i gael effaith negyddol ar y modd y byddant yn rhyngweithio â'u hamgylchedd a phobl leol eraill.

4.67 Mae darpariaeth chwarae ac ieuenctid o safon yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Mae agwedd maes chwarae antur wedi ei staffio The Venture yn Wrecsam wedi llwyddo i gynnwys rhai o aelodau mwyaf eithredig y gymuned leol, yn ogystal â rhai yr oedd pobl eraill yn eu hofni fwyaf. (Brown, 2006, *The Venture: a case study of an adventure playground*)

4.68 Po fwyaf cyfeillgar y mae'r amgylchedd cyffredinol i blant a phobl ifainc, y mwyaf tebygol y maent o chwarae allan. Caiff hyn effaith cadarnhaol amlwg ar ganfyddiadau ynghylch ynysu neu ddieithrio, nid yn unig ar gyfer plant a phobl ifainc ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd.

4.69 Byddem yn disgwyl ble fo grwpiau megis PACT yn trafod â swyddogion chwarae a chymdeithasau chwarae lleol y byddai gwell dealltwriaeth o chwarae ac ymddygiad chwarae plant, ac o'r herwydd gwell gallu i wahaniaethu rhwng ymddygiad chwarae ac ymddygiad gwirioneddol faleisus ac i adnabod sut y gallai cymuned ddarparu ar gyfer ymddygiad chwarae ei holl aelodau.

## 5. Polisi ac ariannu chwarae

### Polisi Chwarae a Chynllun Gweithredu Polisi Llywodraeth Cymru

5.1 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan adolygiadau *Cyflwr Chwarae* (2000, 2003, 2006, 2009) yn awgrymu bod y polisi cenedlaethol a'i gynllun gweithredu perthynol wedi bod yn yrwyr cenedlaethol a gyfranodd at gynllunio strategol lleol ar gyfer chwarae.

5.2 Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2009 a derbyniwyd ateb gan 13 o'r 22 awdurdod lleol. Cafodd yr adolygiad ei hysbysu'n ogystal gan archwiliadau chwarae rhanbarthol a gyflawnwyd gan gymdeithasau chwarae sector gwirfoddol / prosiectau isadeiledd a ariennir gan raglen Chwarae Plant y Loteri

FAWR. Derbyniwyd atebion gan bob un o'r deg prosiect sector gwirfoddol.

**Cymorth**

5.3 Mae adolygiadau *Cyflwr Chwarae* dilynol yn cadarnhau bod thema chwarae Cymorth wedi arwain at greu amrywiaeth o strategaethau chwarae a swyddi swyddogion datblygu chwarae lleol. Dengys yr atebion gan awdurdodau lleol bod saith ardal wedi datblygu, a'u bod bellach yn gweithredu, strategaethau sy'n seiliedig ar y cynllun cenedlaethol. Mae pedair ardal yn adolygu strategaethau sy'n bodoli eisoes ac mae dwy ardal yn eu datblygu yn unol â'r cynllun cenedlaethol.

5.4 Mae'r archwiliadau'n arddangos bod thema chwarae Cymorth yn fwy diweddar wedi cael ei defnyddio i ddatblygu darpariaeth chwarae wedi ei staffio ar gyfer plant, y mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithredu yn ystod gwyliau'r ysgol, yn bennaf yn ystod yr haf. Mae rhai ardaloedd sydd â cyllidebau mwy o faint wedi datblygu darpariaeth chwarae wedi ei staffio yn ystod adegau eraill o'r flwyddyn. Wrth i'r thema chwarae barhau i fod y ffynhonnell ariannu bennaf ar gyfer darpariaeth chwarae a gan ei bod yn cael ei chlustnodi yn ôl maint y boblogaeth, mae mwy o awdurdodau gwledig wedi ei chael yn anodd i gynnig darpariaeth effeithlon oherwydd eu cyllidebau llai o faint.

5.5 Er bod y mwyafrif o strategaethau lleol wedi cael eu datblygu'n unol â'r cynllun gweithredu cenedlaethol, bu'r cynnydd ar lefel cenedlaethol yn siomedig. Bydd Chwarae Cymru, tra'n ystyried datblygiadau strategol, bob amser yn troi'n ôl at argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n dal i fod yn berthnasol. O'u gweithredu'n genedlaethol, byddai'r argymhellion hyn yn cyfrannu at greu mannau mwy diogel i chwarae a chymdeithasu.

5.6 Mae'r atebion a dderbyniwyd i adolygiad *Cyflwr Chwarae* yn dynodi bod datblygiad Cynlluniau Plant a Phobl Ifainc (CPPI) wedi gweithredu fel ysgogiad cenedlaethol ar gyfer cynllunio darpariaeth chwarae'n lleol. Mae gan ddatblygiad grwpiau Nod Allweddol 4 (neu debyg), sydd wedi eu sefydlu yn y rhan fwyaf o ardaloedd trwy ad-drefnu partneriaethau, y potensial i gyfrannu at ddatblygiad agwedd fwy gydlynol tuag at gynllunio ar gyfer chwarae plant, gyda mwy o ryngweithio

rhwng y rheini sy'n gyfrifol am ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio a mannau agored / chwarae.

5.7 O ran adloniant (sy'n cynnwys chwarae) mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar asiantaethau i gydweithredu i hyrwyddo lles plant a phobl ifainc. Mae'r atebion i'r adolygiad yn awgrymu nad yw partneriaethau wedi gallu arddangos hyd yma pa mor effeithiol ydynt wrth gydweithio ar draws y sectorau tra'n cynllunio ar gyfer chwarae.

**Gwasanaethau ieuenctid a hamdden sy'n bodoli eisoes**

5.8 Mae adolygiadau *Cyflwr Chwarae* yn awgrymu bod defnyddio ariannu thema chwarae Cymorth i benodi staff datblygu chwarae ac i lunio strategaethau chwarae wedi arwain at ddefnydd priodol o gyllid ar gyfer chwarae plant. Canfyddodd adolygiadau cynharaf *Cyflwr Chwarae* bod diffyg arweiniad ynghylch y Gronfa Chwarae gynharach yn aml yn arwain at glustnodi arian ar gyfer cynlluniau amhriodol, fyddai ddim yn ystyried darpariaeth chwarae.

5.9 Mae'n ymddangos bod ariannu amhriodol prosiectau â gogwydd gofal, chwaraeon, addysgol neu hamdden, a ddigwyddodd yn y gorffennol gyda chynlluniau grantiau bychain, wedi cael ei gywiro yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

5.10 Mae Gwasanaethau Hamdden yn parhau i ddarparu rhywfaint o ddarpariaeth chwarae, yn enwedig cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau ar gyfer plant dros wyth mlwydd oed. Bydd Gwasanaethau Ieuenctid, a grwpiau ieuenctid gwirfoddol yn arbennig, yn darparu 'clybiau ieuenctid' iau ar gyfer plant rhwng 8 – 13 oed. Yn aml bydd y rhain yn strwythuredig iawn ac yn cynnig fawr ddim cyfleoedd ar gyfer rhyddid dewis, o ran cyfleoedd neu symud o amgylch. Ble fo adrannau gwasanaethau chwarae a chymdeithasau chwarae yn gweithio ochr-yn-ochr â gwasanaethau hamdden ac ieuenctid, mae'n ymddangos bod ansawdd y cyfleoedd chwarae'n gwella.

**Ariannu Ychwanegol ar gyfer Plant Anabl**

5.11 Yn 2006 daeth £1m ychwanegol ar gael i Bartneriaethau Fframwaith ddarparu cyfleusterau chwarae ar gyfer plant anabl. Ar y pryd, cynhaliodd Chwarae Cymru ymarfer anffurfiol i fesur effaith yr ariannu hwnnw. Casglwyd tystiolaeth trwy gyfweliadau anffurfiol â Swyddogion

Chwarae a Chymdeithasau Chwarae, ac adroddiadau gan Swyddogion Datblygu Chwarae Cymru. Mae'r pwnc o ddarparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer plant anabl yn un llawn emosiwn, ac yn aml iawn, gwnaethpwyd penderfyniadau llawn bwriadau da ond anwybodus ac anaddas oedd yn dibynnu ar fodelau traddodiadol yn hytrach na gwerthusiadau gwrthrychol o anghenion chwarae plant anabl.

5.12 Yn debyg i gynllunio a'r defnydd o ffynonellau ariannu eraill, dynodwyd y materion canlynol:

- ni lwyddodd y dosbarthiad, trwy fformiwla draddodiadol Cymorth (yn ôl poblogaeth), i gefnogi darpariaeth ystyrlon mewn ardaloedd awdurdodau lleol llai o faint a mwy gwledig
- cafwyd dehongliad lleol bod yr ariannu yma'n gyllid 'un tro' yn unig, a'r teimlad oedd nad oedd angen sefydlu prosiectau newydd, dyfeisgar nac i ystyried materion cynaladwyedd
- golygodd y diffyg canllawiau penodol y bu i rai ardaloedd (oedd heb ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio i'w drosi'n ddarpariaeth cynhwysol) ddefnyddio'r cyllid i gefnogi gwasanaethau eraill (e.e. gwasanaethau ieuenctid)
- mewn rhai ardaloedd ceir tystiolaeth i beth o'r cyllid gael ei ddefnyddio i ariannu darpariaeth caeëdig, wedi ei segregeiddio, oedd yn bodoli eisoes – yn yr ardaloedd hynny ble roedd swyddog chwarae neu gymdeithas chwarae ynghlwm â'r broses, gwnaethpwyd defnydd mwy effeithlon o'r arian.

5.13 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i ddarparu ariannu ychwanegol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifainc i ymestyn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl. Mae'r atebion diweddaraf i *Cyflwr Chwarae* yn nodi, mewn rhai ardaloedd, y gwelwyd gweithio partneriaeth a'r defnydd o ariannu i benodi staff ychwanegol i ddatblygu gwasanaeth mwy cynhwysol. Fodd bynnag, mae nifer o ardaloedd yn parhau i ddefnyddio'r ariannu i gefnogi gwasanaethau eraill. Prin yw'r dystiolaeth hefyd sy'n awgrymu bod rhai ardaloedd wedi gwneud penderfyniadau ynghylch y dosbarthiad diweddaraf ar eu pen eu hunain, heb gydweithrediad effeithlon â phob partner.

**Canolfannau Plant Integredig**

5.14 Roedd gan y fenter Canolfannau Plant Integredig (CPI) y potensial i ddarparu meysydd chwarae antur cynhwysol rhad ac am ddim wedi eu staffio (neu ddarpariaeth mynediad agored cynhwysol wedi ei staffio ar gyfer plant oedd yn glynu at batrwm maes chwarae antur) yn ardal pob awdurdod lleol.

5.15 Mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol arweiniodd methiant i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a diffyg gwybodaeth a hyder wrth ddarparu darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio, at weld elfen mynediad agored y CPI yn cael ei esgeuluso neu ei lastwreiddio. Ble y glynwyd at y canllawiau cenedlaethol ac y gwnaethpwyd defnydd o arbenigedd lleol, gwelwyd canlyniadau mwy cadarnhaol sy'n dangos bod meysydd chwarae antur yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddewis plant a phobl ifainc o fannau i chwarae a chymdeithasu.

5.16 Cyhoeddwyd gwerthusiad y Sefydliad Materion Cymreig o CPI yn 2006 ac mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg yn y broses o gynhyrchu gwerthusiad wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cronfa Loteri FAWR.

**Ysgolion Bro**

5.17 Er nad yw'n cwmpasu pob ysgol yng Nghymru, mae'r fenter Ysgolion Bro yn cynrychioli cyfle i sefydlu tiroedd ysgol fel mannau chwarae i gymunedau. Yn 2007 comisiynwyd Chwarae Cymru, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i gynhyrchu canllawiau ar ddarparu ar gyfer chwarae mewn Ysgolion Bro sydd, hyd a wyddom, heb ei gyhoeddi hyd yma.

**Rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR**

5.18 Mae nodau'r Rhaglen Chwarae plant yn cynnwys: datblygiad mannau chwarae newydd ar gyfer plant yn eu cymunedau eu hunain; datblygiad cyfleoedd chwarae sy'n darparu lle i blant ddewis sut i chwarae; a datblygiad cyfleoedd chwarae mynediad agored wedi eu staffio.

5.19 Cyn dyfodiad rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR dim ond mewn ychydig o ardaloedd awdurdodau lleol yr oedd cymdeithasau chwarae rhanbarthol yn bodoli yng Nghymru. Gwelodd Rownd Un ddatblygiad deg o gymdeithasau chwarae sector gwirfoddol rhanbarthol – am y tro cyntaf ceir cymdeithasau chwarae trwy Gymru gyfan. O ystyried y

dyletswydd i gydweithio, gall cymdeithasau chwarae rhanbarthol chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod darparwyr chwarae gwirfoddol yn gallu cael llais ac achosi newidiadau tra'n cydweithio ag asiantaethau eraill.

5.20 Cwblhaodd prosiectau'r cymdeithasau chwarae ymarferion awdit er mwyn mapio ac archwilio darpariaeth chwarae yn ardal pob awdurdod lleol. Cyfranodd yr archwiliadau hyn at ddynodiad gwaelodlin o fylchau a blaenoriaethau lleol mewn darpariaeth chwarae. Roeddent hefyd yn darparu tystiolaeth o angen strategol ar gyfer datblygu ceisiadau i'r gronfa ar gyfer prosiectau chwarae strategol yn Rownd Dau.

5.21 Ar hyn o bryd mae swyddogion grantiau y Loteri FAWR yn asesu deg o gynlluniau busnes a cheisiadau rhanbarthol Rownd Dau. Disgwylir penderfyniad ym mis Ebrill 2010.

5.22 Os y byddant yn llwyddiannus, bydd y ceisiadau'n cyfrannu at ddatblygu deg prosiect gwaith chwarae peripatetig rhanbarthol, fydd yn darparu cyfleoedd chwarae cynhwysol, rhad ac am ddim wedi eu staffio ble y canfyddwyd bod plant a phobl ifainc eu hangen fwyaf, yn eu cymunedau. Profwyd bod y model cymunedol hwn o ddarpariaeth yn delio â rhai o'r rhwystrau y bydd plant a phobl ifainc yn eu hwynebu wrth gael mynediad i fannau i chwarae yn eu cymuned, trwy: annog plant i wneud mwy o ddefnydd o barciau a mannau agored; lleihau ofnau plant ynghylch bwlio; sicrhau bod y gofod chwarae'n gynhwysol – cefnogi pob plentyn i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael, yn eu ffordd eu hunain. Fodd bynnag, tra bydd y fenter hon yn cyfrannu'n sylweddol at sefydlu modelau darpariaeth mewn ardaloedd sydd fwyaf anghenus, nid yw'n realistig inni ddisgwyl y bydd yn ymestyn cyfleoedd chwarae mwy diogel i bob plentyn a pherson ifanc fyddai'n elwa o hyn ym mhob cymuned.

**Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf**

5.23 Ceir tystiolaeth anecdotaidd bod Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf wedi cyfrannu at ddatblygiad cyfleoedd chwarae newydd ar gyfer plant mewn nifer o ardaloedd; ond, gwnaethpwyd y defnydd gorau o'r ariannu ble roedd swyddog chwarae neu gymdeithas chwarae leol ar gael â chryn arbenigedd ym maes datblygu darpariaeth chwarae.

5.24 Mae rhai ardaloedd yng Nghymru wedi defnyddio'r ariannu i ddatblygu meysydd chwarae antur wedi ei staffio, gan weithio mewn partneriaeth â phobl broffesiynol lleol. Mae

Chwarae Cymru'n ymwybodol bod parhad rhaglen Cymunedau'n Gyntaf mewn rhai ardaloedd yng Nghymru wedi effeithio ar barhau'r ddarpariaeth, gyda rhai'n dod i ben oherwydd diffyg ariannu cynaliadwy. Mewn ardaloedd eraill, golygodd diffyg arbenigedd lleol na fu'n bosibl gwireddu bwriadau da trigolion lleol i sefydlu safle chwarae antur wedi ei staffio.

**Effaith posibl Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)**

5.25 Mae'r sector chwarae yng Nghymru'n croesawu cynnwys chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Mae gan y dyletswydd y potensial i gyfrannu at gynnydd sylweddol mewn cyfleoedd i blant chwarae allan a chymdeithasu. Mae'r oblygiadau'n dibynnu'n helaeth ar yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried sy'n gyfleoedd chwarae 'digonol'.

5.26 Y tebygolrwydd yw, waeth beth gaiff ei ystyried yn ddigonol, y bydd pob ardal yng Nghymru yn brin o gyfleoedd chwarae ac o'r herwydd, bydd angen defnydd mwy effeithlon o'r ariannu sydd ar gael eisoes er mwyn datblygu rhagor o ddarpariaeth. Yn anffodus mae'r atebion a dderbyniwyd i *Cyflwr Chwarae* yn dynodi bod yr ariannu sydd ar gael ar gyfer darpariaeth chwarae ar hyn o bryd ar draws Cymru yn gyfyngedig ac, yn yr hinsawdd economaidd presennol ble fo pob cyllideb dan bwysau, nid yw'r sefyllfa yma'n debygol o wella, ac mae'n bosibl y bydd yn gwaethygu.

## 6. Atebion ac argymhellion

6.1. Archwilwyd nifer o'r rhwystrau sy'n atal plant a phobl ifainc rhag chwarae allan a chymdeithasu yn hyderus yn y dystiolaeth yma, ble y gwnaethom eu rhannu'n 'agweddau' ac yn 'amgylcheddau'. Mewn gwirionedd nid yw'r categorïau hyn yn rhai cwbl wahanol ac mae'r problemau sy'n codi'n rhai cymhleth; maent yn croesi portffolios gwahanol weinidogion a ffiniau adrannol. Mae negeseuon cymysglyd rhwng asiantaethau ac adrannau'n cyfrannu at ddryswch, ac o'r herwydd, ddiffyg gweithredu a gorofal. Yn ddelfrydol, bydd hyder i chwarae a chymdeithasu'n digwydd ym mhob agwedd o'n bywydau, felly bydd mesurau i gynyddu hyder yn galw am arddull pendant wedi ei gydlynu rhwng asiantaethau, llunwyr

polisïau a darparwyr. Caiff arian a hyder y cyhoedd ei wastraffu oherwydd diffyg neges ac agwedd gydlynol.

6.2. Yma rydym yn amlinellu agweddau polisi ac ymarferol posibl allai ein helpu i oresgyn y rhwystrau hyn a chreu Cymru well i blant a phobl ifainc fyw ynddi.

**Calonnau a Meddyliau: Amser, gofod a chaniatâd i chwarae**

6.3. Fel cymdeithas, bydd angen inni ystyried darpariaeth ar gyfer chwarae plant fel rhywbeth llawer mwy na dim ond darpariaeth ffisegol y maes chwarae traddodiadol. Tra bo gan y maes chwarae rôl i'w chwarae, nid yw'n gwneud unrhyw gyfraniad sylweddol i ateb anghenion chwarae plant a dylid ei ystyried fel dim ond un elfen o ystod o ddewisiadau. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl flaengar ac allweddol i'w chwarae wrth greu'r hyn fydd yn newid sylfaenol yn y modd y byddwn yn ystyried ac yn darparu ar gyfer chwarae a chymdeithasu plant a phobl ifainc mewn cymunedau.

6.4. Nid yw chwarae a chymdeithasu'n ymwneud â chyrchfan yn unig; mae a wnelo'r siwrnai trwy ac o amgylch yr amgylchedd a'r gymuned. Mae angen inni newid yr amgylchedd trwy ein cymunedau er mwyn creu Cymru sy'n ystyrlon o chwarae; a bydd hyn yn galw am gefnogi newid agweddau a ffyrdd o feddwl – gan ddefnyddio arddull 'reolyddol' ac addysgol.

6.5. Os y bydd gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a darparu cyfleoedd chwarae digonol yn effeithlon, fe welwn fwy o blant a phobl ifainc yn amlwg (a dan gysgod) yn chwarae allan yn ein cymunedau – a thrwy eu presenoldeb, yn cyfrannu at les ein cymdeithas.

| 6.6 | **Argymhellion** |
|---|---|
| 6.6.1 | Bydd angen i'r holl ganllawiau a rheoliadau i gefnogi awdurdodau lleol i gwblhau archwiliadau digonedd fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru), fod yn gwbl eglur ac yn perthyn yn ddiamwys i'r polisi chwarae cenedlaethol a'r diffiniad o chwarae. Dylai hyn gefnogi ymateb cydlynol, traws-broffesiynol, i ddatblygu Cymru'n le da i chwarae allan ac i gymdeithasu.<br><br>Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ariannu digonol ar gael / wedi ei glustnodi ar gyfer cefnogi cyflwyno'r Mesur hwn. |
| 6.6.2 | Bydd angen i'r canllawiau a'r rheoliadau ddaw gyda'r Mesur ymgorffori'r ddealltwriaeth na ellir cyflawni digonedd darpariaeth chwarae trwy adeiladu rhagor o feysydd chwarae na meysydd chwarae mwy o faint, ond yn hytrach ei fod a wnelo darparu ystod o ddewisiadau i ateb anghenion plant a phobl ifainc ac y gellir ateb rhai o'r dewisiadau hynny'n syml iawn trwy fabwysiadu agwedd mwy hyblyg a chroesawus tuag at ymddygiad chwarae. |
| 6.6.3 | Nid yw chwarae, a'r modd y byddwn yn ei gefnogi, yn gyfrifoldeb un adran o awdurdodau lleol. O holl Gyfrifoldebau'r awdurdodau lleol, gellid dadlau mai chwarae yw'r elfen sy'n torri ar draws y mwyaf o agendâu.<br><br>O'r herwydd, byddai Chwarae Cymru'n argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu hyfforddiant traws-broffesiynol i helpu'r gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio, dylunio, ac adeiladu a rheoli ein cymunedau, i ddeall pwysigrwydd chwarae plant a'u rôl wrth greu mannau cyhoeddus sy'n ystyriol o blant. Byddai hyn yn dwyn ynghyd uwch-reolwyr, rheolwyr a phobl broffesiynol o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithio i, a gyda, yr awdurdod lleol, yn cynnwys:<br><br>Cynllunwyr a datblygwyr<br><br>Penseiri a chynllunwyr tirwedd<br><br>Gweithwyr trafnidiaeth a phriffyrdd<br><br>Gweithwyr iechyd<br><br>Gweithwyr adfywio a thai<br><br>Staff gwasanaethau plant ac ysgolion |

| | |
|---|---|
| | Yr Heddlu<br><br>Staff hamdden a pharciau<br><br>Gweithwyr ymgysylltu cymunedol<br><br>Staff arolygiaeth<br><br>Dylid dylunio’r hyfforddiant i alluogi cyfranogwyr i ennill gwell dealltwriaeth o chwarae ac adloniant anffurfiol plant a phobl ifainc, a sut a ble y bydd yn digwydd. Dylai archwilio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a phobl ifainc a’r modd y gall gweithwyr proffesiynol, trwy wneud chwarae’n flaenoriaeth, drosglwyddo ar ystod o flaenoriaethau lleol a chefnogi cymunedau i fod yn fwy goddefol a goddefgar. |
| 6.6.4 | Mae effaith ceir ar chwarae plant mor sylweddol fel bod angen annog a chefnogi datrysiadau priffyrdd cymunedol creadigol a dyfeisgar gyda menter cwbl eglur a chynhwysfawr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth ac i annog datrysiadau cadarnhaol i broblemau lleol. Mae’n bosibl mai mabwysiadu cyfyngiad cyflymdra 20 milltir yr awr ym mhob ardal breswyl allai gael yr effaith cadarnhaol mwyaf pellgyrhaeddol. Mae mentrau eraill y byddem yn eu argymell yn cynnwys:<br><br>• Ymchwil i agweddau ac arferion presennol awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru tuag at weithredu’r *Manual for Streets* a chanllawiau priffyrdd eraill.<br>• Ariannu a chydlynu ymgyrch ar y cyd i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y canllawiau a geir ar hyn o bryd yn y *Manual for Streets* ymysg cynllunwyr a pheirianwyr priffyrdd Cymru.<br>• Cynnal cefnogaeth ar gyfer penderfyniadau cynllunio sy’n gwrthod datrysiadau priffyrdd o gynllun gwael, trwy ganllawiau polisi cynllunio mwy grymus a’r system apeliadau cynllunio, a hyrwyddo’r safbwynt hwn mewn modd gweithredol gydag awdurdodau cynllunio lleol.<br>• Cefnogi cynhyrchu dogfen Gymreig sy’n hyrwyddo pob stryd fel gofod chwarae, ac sy’n darparu enghreifftiau i ymarferwyr lleol dylunio strydoedd ac agweddau rheoli sy’n cyflawni’r weledigaeth a geir yn y *Manual for Streets*, tra hefyd yn edrych ar sut a pham fod strydoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer chwarae.<br>• Cefnogi mentrau peilot, mewn amrywiol sefyllfaoedd, er mwyn hybu mabwysiadu cynlluniau sydd â rhinweddau parth cartrefi neu Strydoedd DIY, er mwyn creu gwell ymwybyddiaeth o’r problemau a geir mewn cymunedau ar draws Cymru. |

| | |
|---|---|
| 6.6.5 | Mae'n bwysig y caiff ariannu a glustnodwyd i gefnogi chwarae plant ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer chwarae. Yn aml caiff hawl plant i chwarae ei lyncu gan agendâu oedolion ac yn aml caiff ariannu ei gamddefnyddio'n ddiofal neu ei lastwreiddio i ateb anghenion eraill. Dylid darparu canllawiau er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd wrth i Cymorth gael ei ddisodli gan y Grant Cynnal Ardrethi. Dylid cyfeirio mentrau eraill sy'n effeithio ar fynediad i fannau chwarae a chymdeithasu (megis Cynlluniau Gweithredu Diogelwch Cymunedol, Gweithgarwch Corfforol) i weithio'n agos â gwasanaethau a chymdeithasau chwarae er mwyn sicrhau bod chwarae a chymdeithasu phlant a phobl ifainc yn cael ei gydnabod, ei gynnwys a'i feithrin. |
| 6.6.6 | Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo a mabwysiadu 'Managing Risk in Play Provision: an Implementation Guide', a gomisiynwyd gan y Fforwm Diogelwch Chwarae ac a gyhoeddwyd yn 2008. Byddai hyn yn sicrhau datblygu amgylchedd ble nad yw'r cydbwysedd rhwng anghenion chwarae plant a'u hangen i brofi risg, yn cael ei beryglu gan ddefnydd amhriodol o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith neu gan ymgyfreithio. |
| 6.6.7 | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i bwysleisio pwysigrwydd gweld awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol, a thrwyddynt blant mewn cymunedau leol. Dylid datblygu canllawiau i gefnogi'r dyletswydd (yn unol â Deddf Plant 2004) i gydweithredu ac yn bwysicach fyth, i'w archwilio a'i monitro. |
| 6.6.8 | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ail-edrych ar yr argymhellion a wnaethpwyd gan Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004, pan yn datblygu unrhyw strategaeth, rheoliadau a chanllawiau chwarae newydd sy'n anelu i gyfrannu at greu mannau mwy diogel i chwarae a chymdeithasu ynddynt. |
| | Bydd angen i unrhyw ymgyrchoedd gan y llywodraeth sydd wedi eu hanelu at gefnogi plant i gael mynediad i fannau chwarae a chymdeithasu, gael eu datblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau sy'n deall plant, pobl ifainc a chymunedau er mwyn i negeseuon fod yn rhai ystyrlon sy'n rhwydd i'w trosi a'u croesawu. Bydd angen i'r negeseuon gael eu atgyfnerthu gan gydnabyddiaeth ac ymrwymiad i newid rhwystrau sefydliadol i chwarae plant. Fydd cyfleu neges bod chwarae a chymdeithasu yn dda i chi ddim yn gweithio oni bai fod enghreifftiau concrid a newidiadau gweledol mewn agweddau tuag at chwarae ar lefel leol. |
| 6.6.9 | Dylid gosod dyletswydd ar ysgolion i ddarparu digon o amser a |

| | |
|---|---|
| | gofod ar gyfer chwarae rhydd yn ystod y diwrnod ysgol. |

6.7 Mae chwarae nid yn unig yn siwrnai trwy gymuned plentyn neu berson ifanc, mae'n ymgorfforiad o'u siwrnai trwy fywyd. Trwy ystyried a gweithredu o ddifrif gall pob un ohonom gyfrannu at weld y siwrnai honno'n ychwanegu'n sylweddol at eu lles.

Chwarae Cymru, 12 Ionawr 2010

www.chwaraecymru.org.uk

Elusen cofrestredig: 1068926

Cwmni cyfyngedig drwy warant cofrestrwyd yn Nghymru: 3507258

**Llyfryddiaeth**


BBC 4, 2009, *Hop, Skip and Jump*

Barnardo's, *Postcards from Home*

Barnardo's, *It doesn't happen here - The reality of child poverty in the UK*

Brown, 2006, *The Venture: a case study of an adventure playground,* Chwarae Cymru

Department for Culture, Media and Sport, 2004, *Getting Serious About Play*

Draig Ffynci, 2008, *Pam fod oed pobl yn mynd i fyny ddim lawr?*

Gill, 2007, *No Fear, Growing up in a risk averse society,* Calouste Gulbenkian

Hart, 2002, *Containing Children: Some lessons on planning for play from New York City,* Environment and Urbanisation

Sefydliad Materion Cymreig, 2009, *What are We Doing to Our Kids?*

Lester a Russell, 2008, *Play for a Change, Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*, Play England

MacIntyre a Casey, 2007, *People Play Together More,*

Mannello, 2000, 2003, 2006, 2009, *Cyflwr Chwarae,* Chwarae Cymru

Morrongiello *et al*, yn *Accident Analysis and Prevention*, 2007

Chwarae Cymru, *Chwarae a Chynhwysiad* (datganiad sefyllfa, 2006)

Chwarae Cymru, *Chwarae a Chyfrifiaduron* (datganiad sefyllfa, 2009)

Seaton, 2006, *Integrated Centres in Wales: Development & Implementation,* Sefydliad Materion Cymreig

Woolley *et al*, 2006, *Inclusion of Disabled Children in Primary Playgrounds,* NCB a Joseph Rowntree

Worpole, 2003, *No Particular Place to Go: Children, young people and public space,* Groundwork UK